Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.wales.gov.uk




# Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
Trefniadau Hawlio 2014 – 2020

## Cyfarwyddiadau i Fuddiolwyr Arweiniol

*Fersiwn 1.0*
*Ionawr 2016*

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| **1** | **Cyflwyniad** | **5** |
| **2** | **Trefniadau Hawlio** | **7** |
| 2.1 | Cyfnodau Hawlio | 7 |
| 2.2 | Y Proffil Cyflawni | 7 |
| 2.3 | Gwariant Cymwys | 8 |
| 2.4 | Cyfrifyddu a Chadw Cofnodion | 8 |
| 2.5 | Dull Talu – Cyfradd / Angen | 9 |
| 2.6 | Taliadau ymlaen llaw | 9 |
| 2.7 | Gwariant ôl-weithredol a Rhagarweiniol | 9 |
| 2.8 | Cadw | 10 |
| 2.9 | Talu Hawliadau | 10 |
| 2.10 | Dilysu Hawliadau | 10 |
| **3** | **Cwblhau'r Ffurflen Hawlio** | **12** |
| 3.1 | Cysylltiadau Hawlio | 12 |
| 3.2 | Nodiadau Cyffredinol | 12 |
| 3.3 | Mewngofnodi | 13 |
| 3.4 | Dilysu Hawliadau | 16 |
| 3.5 | Goddefiannau | 16 |
| 3.6 | Pennawd yr Hawliad | 16 |
| **4** | **Manylion Sylfaenol** | **19** |
| **5** | **Gwariant** | **25** |
| 5.1 | Trafodiadau Gwariant | 26 |
| **6** | **Gwariant y Cyfnod Nesaf (Taliadau ymlaen llaw yn unig)** | **34** |
| **7** | **Incwm** | **38** |
| 7.1 | Trafodiadau Incwm | 41 |
| **8** | **Incwm y Cyfnod Nesaf (Taliadau Angen ymlaen llaw yn unig)** | **49** |
| **9** | **Dangosyddion** | **53** |
| 9.1 | Cyflwyniad data lefel Cyfranogwr/lefel Menter | 57 |
| 9.2 | Hyblygrwydd Traws-gronfa | 57 |
| **10** | **Methiannau Dilysu** | **59** |
| **11** | **Crynodeb o Daliadau** | **64** |
| **12** | **Cyflwyno'r Ddogfen Hawlio** | **69** |
| **13** | **Cyflwyno'r Hawliad i WEFO** | **73** |
| 13.1 | Adroddiad ar y Ffurflen Hawlio | 74 |
| **14** | **Gwirio Cynnydd Hawliad** | **76** |
| **15** | **Gweld Dogfennau Lefel Hawlio** | **77** |
| **16** | **Cau'r Gweithrediad** | **80** |

| | | |
|---|---|---|
| **Atodiad 1** | **Adroddiad Cynnydd** | **82** |
| **Atodiad 2** | **Rhestr Trafodiadau** | **84** |
| **Atodiad 3** | **Amnewid** | **86** |

# 1. Cyflwyniad

# 1. Cyflwyniad

Bydd cronfa ddata WEFO y gellir ei gweithredu ar y we, “WEFO Ar-lein”, yn galluogi Buddiolwyr Arweiniol i gyflwyno ceisiadau’n syth i WEFO trwy Borth y Llywodraeth.

Darperir y nodiadau canllaw canlynol i’ch helpu i gwblhau eich ffurflen hawlio ar-lein ar gyfer Cronfa Strwythurol yr UE 2014-2020.

Mae’n bwysig eich bod chi’n darllen ac yn cydymffurfio â phob adran o’r canllaw hwn, gan gynnwys yr atodiadau sy’n cynnwys rhywfaint o wybodaeth bwysig.

Ar gyfer rhaglenni 2014-2020, bydd WEFO yn dilyn y derminoleg ar gyfer rhaglenni Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESI) a fabwysiadwyd gan y Comisiwn, gyda rhai o’r newidiadau canlynol;

- Bydd Prosiect (a reolir gan Fuddiolwr Arweiniol) yn cael ei adnabod fel Gweithrediad;
- Bydd Noddwr yn cael ei adnabod fel Buddiolwr;
- Bydd Buddiolwr (ESF) yn cael ei adnabod fel Cyfranogwr

Os byddwch chi’n cael unrhyw broblemau wrth gwblhau eich ffurflen hawlio neu os oes angen mwy o gyngor neu gymorth arnoch, cysylltwch â Thîm Taliadau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

# 2. Trefniadau Hawlio

# 2. Trefniadau Hawlio

## 2.1 Cyfnodau Hawlio

Bydd hawliadau'n cael eu gwahodd yn unol â'r amlder a gytunir rhyngoch chi a'ch Swyddog Datblygu Prosiect ac fel y nodir ym Mhroffil Cyflawni eich Gweithrediad (fel arfer bob chwarter). Bydd ffurflenni Hawlio Ar-lein yn cael eu dosbarthu gan WEFO (gellir eu gweld trwy WEFO Ar-lein) a rhaid eu cyflwyno i WEFO erbyn y dyddiad a nodwyd ar y ffurflen hawlio, a fydd fel arfer o fewn 3 wythnos i'r cyfnod hawlio perthnasol. Rhaid i'r hawliadau adlewyrchu'r gwariant gwirioneddol a dalwyd neu'r cyfnod hawlio perthnasol.

**Rhaid i'r Buddiolwr Arweiniol gwblhau a chyflwyno hawliadau ar yr adegau a nodwyd, hyd yn oed os nad oes unrhyw wariant newydd wedi cael ei dalu ac nad oes unrhyw daliad grant yn cael ei hawlio. Diben hyn yw sicrhau bod WEFO yn cael gwybodaeth reolaidd am y cynnydd a wneir o ran cyflawni'r dangosyddion sydd yn y Proffil Cyflawni cymeradwy a'i fod yn gallu monitro gweithgareddau'r Gweithrediad.**

Bydd y ffurflenni hawlio'n gofyn am wybodaeth am bob cofnod yn y Proffil Cyflawni cymeradwy (e.e. gwariant, incwm a dangosyddion ar lefel Gweithrediad a Rhaglen). Bydd hefyd angen i chi gyflwyno Adroddiad Cynnydd (gweler **Atodiad 1**) gyda disgrifiad byr o'r cynnydd ar y Weithrediad yn ystod y cyfnod hawlio perthnasol.

## 2.2 Y Proffil Cyflawni

Disgwylir i'r Gweithrediad dalu gwariant a derbyn incwm yn unol â'r Proffil Cyflawni cymeradwy. Bydd WEFO'n monitro hyn yn agos fel rhan o'r broses hawlio a rhaid darparu esboniadau llawn pan na fydd y cynnydd (gwariant, incwm neu ddangosyddion) yn cyd-fynd â'r Proffil Cyflawni a/neu lle y bydd categorïau/is-gategorïau ffrydiau gwariant ac incwm yn syrthio y tu allan i'r goddefiannau a nodir yn y Proffil Cyflawni (15% fel arfer).
Caniateir Trosglwyddiad rhwng categorïau/is-gategorïau'r Costau Cymwys cymeradwy o fewn y goddefiannau a nodir yn y Proffil Cyflawni (hyd at 15% fel arfer).

Rhaid i unrhyw newidiadau arfaethedig y tu hwnt i'r lefel hon gael eu hawdurdodi gan WEFO cyn cyflwyno'r hawliad, a gallai hyn olygu y bydd angen ail-werthuso'r Gweithrediad. Yn yr achosion hyn, rhaid cysylltu â WEFO gyda chais o'r fath.

Dylai'r hawliad gynnwys manylion y newid arfaethedig ac eglurhad llawn o'r rhesymau sydd wrth wraidd y newid. Bydd WEFO yn eich hysbysu o'i benderfyniad ar wariant cymwys o'r fath.

| | |
|---|---|
|  | Ni chaniateir trosglwyddo gwariant rhwng;<br>• **Is-gategorïau Cyfalaf a Refeniw,**<br>• **Opsiynau Cost Syml a chategorïau eraill; neu**<br>• **Gostau Gwirioneddol ac mewn nwyddau.** |

Rhaid i chi hysbysu WEFO o'r union ddyddiad y gwnaed y gwariant **cyntaf** pan fyddwch chi'n cyflwyno'r **hawliad cyntaf** am daliad ac wedi hynny, ei hysbysu o unrhyw newid arfaethedig i Ddyddiad Cwblhau'r Gweithrediad neu'r Dyddiad Cwblhau Ariannol.
Bydd yn rhaid i WEFO ail-werthuso'r Gweithrediad os bydd yna unrhyw newid sy'n effeithio ar gyflawni'r Gweithrediad yn ôl yr hyn a nodwyd yn y Proffil Cyflawni.

## 2.3 Gwariant Cymwys

**Gellir ond hawlio gwariant sydd wedi digwydd a'i dalu rhwng dyddiad dechrau'r Gweithrediad a diwedd y cyfnod hawlio.** Y diffiniad o "Talu" yw pan fydd siec wedi'i newid neu pan fydd trafodiad talu wedi'i glirio o gyfrif banc y sefydliad. Rhaid cael trywydd archwilio clir o'r ffurflen hawlio, i'r dogfennau ffynhonnell (anfonebau cefnogol, cofnodion a thaflenni amser wedi'u harwyddo), cyfriflenni banc, cyfriflyfrau/systemau cyfrifyddu'r sefydliad.

Rhaid i'r gwariant cymwys:

(i) beidio â mynd dros y symiau a nodwyd yn y Proffil Cyflawni cymeradwy;
(ii) peidio â chynnwys costau anghymwys fel y nodir yn y Proffil Cyflawni cymeradwy; a
(iii) dim ond cynnwys costau sydd wedi cael eu talu gan y Buddiolwr Arweiniol a/neu gan unrhyw drydydd parti sy'n ymwneud â chyflawni'r Gweithrediad.

Os yw caffael Ased wedi'i gynnwys yn y Gwariant Cymwys, dylid cynnwys rhif cyfresol yr Ased yn y golofn 'Disgrifiad o'r Nwyddau neu Wasanaethau' ar y Rhestr Trafodiadau.

## 2.4 Cyfrifyddu a Chadw Cofnodion

Rhaid i'r Buddiolwr Arweiniol gydymffurfio ag Erthygl 125 (4) (b) o Reoliad Cyngor (UE) Rhif 1303/2013. Rhaid i'r buddiolwyr sy'n ymwneud â gweithredu'r Gweithrediadau naill ai gynnal system gyfrifyddu ar wahân neu god cyfrifyddu priodol ar gyfer pob trafodiad sy'n ymwneud â'r Gweithrediad er mwyn hwyluso'r gwaith a wneir gan y Gymuned Ewropeaidd ac awdurdodau rheoli cenedlaethol i ddilysu'r gwariant. Dylai pob taliad gael ei gefnogi gan anfoneb daledig, neu os na ellir gwneud hyn, ei gefnogi gan ddogfennau cyfrifyddu o werth tystiolaethol cyfwerth.

Rhaid i'r Buddiolwr Arweiniol gydymffurfio ag Erthygl 140 o Reoliad Cyngor (UE) Rhif 1303/2013 sy'n nodi gofynion y Comisiwn o ran dogfennau sydd ar gael. Nodir y gofynion hyn isod:

a. pan fydd cyfanswm y Gwariant Cymwys yn llai nag €1,000,000, rhaid cadw pob trywydd archwilio a dogfen gefnogol am 3 blynedd, o'r 31 Rhagfyr sy'n dilyn cyflwyniad WEFO i'r Comisiwn Ewropeaidd ("CE") yn datgan y Gwariant Cymwys blynyddol a ddatganwyd ar gyfer eich Gweithrediad.
b. pan fydd cyfanswm y Gwariant Cymwys yn fwy nag €1,000,000, rhaid cadw pob trywydd archwilio a dogfen gefnogol am 2 flynedd, o'r 31 Rhagfyr sy'n dilyn cyflwyniad WEFO i'r CE yn datgan y Gwariant Cymwys terfynol ar gyfer y Gweithrediad a gyflawnwyd.

Bydd WEFO yn eich hysbysu'n ysgrifenedig o ddyddiad dechrau'r cyfnodau cadw a gyfeirir atynt ym mhwyntiau (a) a (b) uchod. Bydd angen i chi sicrhau fod pob trywydd archwilio a dogfen yn cael ei gadw am gyfnod amhendant tan y bydd WEFO'n eich hysbysu'n ysgrifenedig fod y cyfnod cadw wedi dod i ben.

Rhaid i Weithrediadau sydd wedi derbyn cymeradwyaeth i ddefnyddio hyblygrwydd traws-gronfa gael system gyfrifyddu ar gyfer pob trafodiad sy'n ymwneud â'r Grant a dderbynnir, sy'n gwahaniaethu rhwng ERDF ac ESF. Bydd angen i chi adrodd ar bob elfen traws-gronfa o'r Gweithrediad ar bob ffurflen hawlio (gweler **Adran 9.2**). Rhaid i Weithrediadau sydd â gweithgareddau cymeradwy sy'n cyfrannu at fwy nag un amcan penodol gadw trywyddion archwilio a dogfennau ar wahân ar gyfer pob amcan penodol.

### 2.5 Dull Talu – Cyfradd / Angen

Bydd dull talu'r grant ("cyfradd" neu "angen") yn cael ei gytuno ar gam cymeradwyo'r Gweithrediad a bydd yn cael ei nodi yn y Proffil Cyflawni cymeradwy.

Yn gyffredinol, bydd grant yn cael ei dalu fesul "cyfradd" gyda'r taliadau wedi'u cyfrifo ar ganran gymeradwy o gyfalaf cymwys a/neu wariant refeniw'r Gweithrediad am bob "cyfnod hawlio". Mewn amgylchiadau eithriadol, gallai WEFO gytuno i dalu yn ôl yr "angen", lle bydd y taliadau'n dangos y gwahaniaeth rhwng incwm cymwys a gwariant cymwys y Gweithrediad ar gyfer y cyfnod hawlio.

Bydd POB hawliad terfynol yn cael ei dalu yn ôl yr "angen"; fodd bynnag, y swm mwyaf o grant a delir fydd cyfanswm y grant Cyfalaf a/neu Refeniw a gytunwyd yn y Proffil Cyflawni, waeth faint o gynnydd sydd yng nghyfanswm y Gwariant Cymwys (Cyfalaf a/neu Refeniw). Bydd cyfanswm y grant sy'n daladwy hefyd yn cael ei *ostwng* i adlewyrchu unrhyw danwariant o ran y Gweithrediad a/neu os oes yna unrhyw newid yn y pecyn ariannu'n gyffredinol sy'n lleihau'r angen am grant. Os bydd yna ddiffyg incwm, bydd angen i'r Buddiolwr Arweiniol ddarparu arian ychwanegol o'i adnoddau ei hun. Rhaid darparu/cadarnhau'r holl fanylion incwm cyn y telir yr hawliadau grant terfynol.

### 2.6 Taliadau ymlaen llaw

Mae'n bosibl y bydd sefydliadau gwirfoddol a sefydliadau preifat nad ydynt yn gwneud elw yn gallu hawlio taliadau grant bob mis neu bob chwarter ymlaen llaw. Os yw'n gymwys, bydd yn cael ei gytuno yn ystod cyfnod datblygu'r Gweithrediad a'i nodi yn y Proffil Cyflawni cymeradwy. Unwaith y bydd eich Gweithrediad wedi dechrau, a'ch bod chi wedi derbyn telerau'r grant, gallwch wneud cais am eich taliad chwarterol/misol cychwynnol trwy gwblhau hawliad cychwynnol ar-lein a fydd yn cael ei wahodd yn syth.

Bydd yr hawliad hwn yn cael ei ddosbarthu ymlaen llaw gyda chostau cymwys cymeradwy'r cyfnod cyntaf, ynghyd ag unrhyw wariant rhagarweiniol neu ôl-weithredol cymwys. Os nad yw'r costau hyn yn gymwys i chi bellach, gallwch drosysgrifo'r rhain gyda'r ffigurau diwygiedig. Fodd bynnag, bydd angen i chi ddarparu eglurhad llawn o unrhyw amrywiadau, a gallai hyn olygu y bydd angen i WEFO ail-werthuso'r Weithrediad.

Pan fyddwch chi'n cwblhau hawliadau ymlaen llaw dilynol, bydd angen i chi adrodd ar y gwariant a dalwyd yn erbyn y grant a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod hawlio blaenorol a chadarnhau'r rhagolygon gwariant a ddisgwylir yn ystod y cyfnod hawlio nesaf, sef yr arian rydych chi ei angen ymlaen llaw. Dylai'r rhagolygon gwariant ar gyfer y cyfnod hawlio nesaf fod yn seiliedig ar yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn y Proffil Cyflawni cymeradwy a rhaid iddo adlewyrchu patrymau gwariant ac incwm y Gweithrediad hyd yn hyn. Bydd unrhyw grant nad yw'n cael ei wario ar daliadau blaenorol yn cael ei dynnu oddi wrth y blaenswm nesaf.

Os nad ydych wedi cael eich hysbysu am ffurflen hawlio cychwynnol, cysylltwch â'ch Swyddog Arweiniol Taliadau.

### 2.7 Gwariant Ôl-weithredol a Rhagarweiniol

Gallwch ond hawlio'r costau a gafwyd ar ôl y Dyddiad Dechrau Gwariant a nodwyd ym Mhroffil Cyflawni cymeradwy'r Gweithrediad. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, gallai WEFO gytuno i

gefnogi gwariant cymwys sydd wedi codi a'i dalu cyn: (a) dyddiad dechrau'r Gweithrediad a/neu (b) derbyn y cytundeb ariannu.

Adnabyddir y costau hyn fel Gwariant Rhagarweiniol a Gwariant Ôl-weithredol a bydd angen eu cynnwys ym Mhroffil Cyflawni cymeradwy'r Gweithrediad.

Pan fydd Gwariant Ôl-weithredol a/neu Ragarweiniol wedi'i gymeradwyo, gallai hawliad cychwynnol cael ei wahodd yn syth wedi i'r Gweithrediad gael ei gymeradwyo. Bydd gofyn i chi gwblhau a chyflwyno'r hawliad hwn trwy lanlwytho'r trafodiadau sy'n ymwneud â'r Gwariant Ôl-weithredol a/neu Ragarweiniol cymwys cymeradwy. Fodd bynnag, bydd angen i chi ddarparu eglurhad llawn o unrhyw amrywiadau, a gallai hyn olygu y bydd angen i WEFO ail-werthuso'r Gweithrediad. Bydd y Proffil Cyflawni cymeradwy yn cadarnhau a oes hawliad cychwynnol wedi'i drefnu. Pan na fydd hawliad cychwynnol wedi'i drefnu, dylid cynnwys Gwariant Ôl-weithredol a/neu Ragarweiniol yn yr hawliad cyntaf a gyflwynir.

### 2.8 Cadw

Bydd WEFO yn cadw 10% o'r Cymorth Ariannol (oni nodir yn wahanol yn y Proffil Cyflawni cymeradwy) hyd nes y bydd y Gweithrediad wedi'i gwblhau, y ffurflen hawlio terfynol wedi'i darparu i WEFO a'r holl wiriadau dilysu hawliadau wedi'u cwblhau, a bod WEFO yn fodlon. Rhaid cyflwyno'r ffurflen hawlio terfynol i WEFO o fewn 3 wythnos yn dilyn y Dyddiad Cwblhau Ariannol. Pan fydd Gweithrediad yn tanwario, bydd Cymorth Ariannol yn cael ei ostwng gan hynny a bydd 10% o'r Cymorth ariannol dyledus a ail-gyfrifwyd yn cael ei gadw.

### 2.9 Talu hawliadau

Bydd Cymorth Ariannol yn cael ei dalu'n syth i gyfrif banc y Buddiolwr Arweiniol trwy daliad BACS. Os nad ydych chi wedi cael Gweithrediad gyda WEFO o'r blaen, neu os yw'ch manylion banc wedi newid, cysylltwch â'ch Swyddog Arweiniol Taliadau fel y gellir rhoi'r cyfarwyddiadau bancio angenrheidiol ar waith. Byddwn yn ceisio talu pob hawliad o fewn 28 diwrnod o dderbyn ffurflen hawlio sydd wedi'i chwblhau'n foddhaol.

### 2.10 Dilysu Hawliadau

Bydd pob hawliad yn gorfod mynd trwy broses o ddilysu hawliad wrth ddesg, sy'n gofyn am gyflwyniad trywydd archwilio llawn i gadarnhau eich cais am daliad. Bydd y gwiriadau dilysu hawliadau'n cael eu gwneud gan y Tîm Rheoli a Dilysu. Mae'r broses wedi cael ei gwahanu o'r broses Daliadau, felly bydd samplau'n cael eu dewis bellach pan gyflwynir yr hawliad a chyn y bydd taliad yn cael ei wneud.

Rhaid darparu'r trywyddion archwilio llawn ar gyfer y samplau a ddewiswyd i WEFO Ar-lein o fewn 12 diwrnod gwaith i'r cais, fel y nodir yn y Rheolau Cymhwysedd ar gyfer rhaglenni 2014-2020. Os na lwyddir i ddarparu trywydd archwilio llawn, gallai'r gwariant cysylltiedig gael ei ddatgan yn anghymwys yn barhaol. Ni fydd hawliadau pellach yn cael eu talu hyd nes y bydd dilysiadau desg yr hawliad blaenorol wedi'u cwblhau'n llawn.

# 3. Cwblhau'r Ffurflen Hawlio

## 3. Cwblhau'r Ffurflen Hawlio

### 3.1 Cysylltiadau Hawliadau

Bydd angen penodi staff perthnasol o fewn sefydliad y Buddiolwr Arweiniol i wneud un o'r tair rôl Cyswllt Hawliadau, a fydd yn caniatáu mynediad i hawliadau ar-lein y Weithrediad, trwy WEFO Ar-lein:

- Dim ond **un 'Cyswllt Hawliadau'** dynodedig y gall pob Gweithrediad ei gael, a hwn fydd y prif gyswllt o fewn sefydliad y Buddiolwr Arweiniol ar gyfer unrhyw ymholiadau gan WEFO sy'n ymwneud â hawliadau.

- Gall unrhyw ddefnyddwyr eraill sydd angen mynediad i gofnodi data ar hawliad gael rôl **'Swyddogion Cynnal Hawliadau'**. Nid oes cyfyngiad ar nifer y Swyddogion Cynnal Hawliadau y gall Gweithrediad ei gael.

- Er mwyn cyflwyno'r hawliad, rhaid i bob Gweithrediad hefyd gael o leiaf un defnyddiwr i ymgymryd â'r rôl **'Swyddog Cyflwyno Hawliadau'.** Anogir sefydliadau i gael o leiaf 2 Swyddog Cyflwyno Hawliadau i bob Gweithrediad a fydd yn gallu cofnodi data ar y ffurflen hawlio a chyflwyno'r hawliad i WEFO.

Dylai Ffurflen Cysylltiadau Hawliadau gael ei chwblhau ar gyfer pob cyswllt sy'n gysylltiedig â'ch Gweithrediad. Gellir cael mwy o gyngor a chopïau o'r ffurflenni hyn gan dîm Taliadau WEFO yn **WEFOPayments@wales.gsi.gov.uk.**

Yn gyffredinol, gwahoddir hawliadau ar y 23ain diwrnod o'r mis. Bydd y Cyswllt Hawliadau'n cael ei hysbysu ar e-bost pan fydd hawliad yn cael ei wahodd.

Bydd WEFO yn penodi Swyddog Arweiniol Taliadau (SAT) yn ei sefydliad ar gyfer eich Gweithrediad a fydd yn ymddwyn fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw ymholiadau y bydd gennych o ran hawliadau/taliadau.

### 3.2 Nodiadau Cyffredinol

*Rhaid dilyn y gofynion canlynol wrth gwblhau eich ffurflen hawlio. Os na fyddwch yn dilyn y rhain, gallai eich taliad fod yn hwyr.*

***Mae'n hanfodol fod ffurflenni hawlio'n cael eu cyflwyno ar amser i WEFO er mwyn sicrhau bod WEFO mewn sefyllfa i gyflwyno datganiadau gwariant rheolaidd i'r Comisiwn Ewropeaidd er mwyn cyrraedd targedau gwariant blynyddol. Os na chaiff y targedau hyn eu cyrraedd, bydd Cymru'n colli Arian Strwythurol a bydd colled bosibl i'r Weithrediad.***

1. Rhaid i'r hawliadau adlewyrchu'r gwariant sydd wedi ei "**dalu"** ar gyfer y cyfnod hawlio perthnasol. Defnyddir y gair "Talu" pan fydd siec wedi'i newid neu pan fydd taliad wedi'i glirio o gyfrif banc y Buddiolwr Arweiniol neu drydydd parti.

2. Pan fydd Gweithrediad yn ymwneud â thalu Cymorth Ariannol i drydydd parti, e.e. partner/buddiolwr, y **Buddiolwr Arweiniol sy'n gyfrifol** am sicrhau bod y gwariant hwn wedi'i dalu gan y trydydd parti cyn y gellir ei gynnwys yn ffurflen hawlio'r Buddiolwr Arweiniol.

3. Caiff hawliadau eu cwblhau fesul **cyfnod**; bydd angen lanlwytho Rhestrau Trafodiadaucyfnod a'u cydgrynhoi â'r trafodiadau a gyflwynwyd yn flaenorol er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa gronnus yn yr hawliad.

4. Gall ffurflenni hawlio **dim ond** cael eu cyflwyno gan Swyddog Cyflwyno Hawliadau penodol, sy'n swyddog priodol yn y sefydliad, e.e. Swyddog Cyllid neu Reolwr Gweithrediad.

5. **Rhaid** i bob hawliad gael ei gefnogi gan Adroddiad Cynnydd (gweler **Atodiad 1** a **2** am fwy o wybodaeth).


6. Rhaid ateb unrhyw ymholiad a godwyd mewn hawliadau blaenorol cyn y gallwn brosesu hawliadau dilynol. Gallwch ateb ymholiadau a godwyd mewn llythyr taliad yn Adran 10 yr *Adroddiad Cynnydd* neu drwy gyflwyno dogfen gefnogol gyda'ch ffurflen hawlio (gweler **Adran 12** Dogfen Cyflwyno Hawliad am ganllawiau pellach). O bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen i ni ofyn am wybodaeth gennych chi cyn i chi gyflwyno'ch hawliad nesaf.

7. Os na fyddwch chi'n cyflwyno'r ffurflen hawlio gyflawn ac unrhyw ddogfennaeth gysylltiedig ar amser, bydd taliad y Cymorth Ariannol yn cael ei ohirio tan fydd WEFO wedi derbyn ffurflen hawlio foddhaol ac unrhyw ddogfennaeth gysylltiedig.


### 3.3 Mewngofnodi

Gallwch fewngofnodi i system WEFO Ar-lein yn **www.wefo.wales.gov.uk/wefo-online**


Byddwch chi'n gweld y sgrin mewngofnodi. Bydd angen i chi deipio eich Rhif Adnabod Defnyddiwr a'ch Cyfrinair ac yna dewis Mewngofnodi.



Bydd tudalen ‘Hafan’ WEFO Ar-lein yn cael ei harddangos, gan ddangos y Gweithrediadau rydych chi’n gysylltiedig â nhw.




Dewiswch y Gweithrediad yr ydych am gyflwyno hawliad ar ei gyfer. Yna, gan ddefnyddio’r ddolen **‘Crynodeb o’r Hawliad’**, dewiswch **‘Cyfnod’** yr hawliad rydych chi am ei gwblhau (yn statws **‘Gwahoddwyd’**).




Bydd y ffurflen hawlio a ddewiswyd yn agor, a bydd tab **‘Manylion Sylfaenol’** yr hawliad yn cael ei arddangos. Mae hwn yn cynnwys manylion allweddol eich Gweithrediad a’r hawliad.

Caiff pob hawliad ei osod mewn nifer o wahanol ‘dabiau’ neu ‘sgriniau hawlio’.

Bydd y tabiau a ddangosir ar gyfer eich hawliad yn dibynnu ar y *math* o hawliad ydyw a'r *dull talu* (cyfeiriwch at y tabl canlynol os gwelwch yn dda):

| | Blaendal Cychwynnol (Cyfradd) | Blaendal Cychwynnol (Angen) | Blaendal (Cyfradd) | Blaendal (Angen) | Ôl-daliadau (Cyfradd neu Angen) | Terfynol (Cyfradd neu Angen) | Dangosydd yn Unig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Manylion Sylfaenol** | • | • | • | • | • | • | • |
| **Gwariant** | | | • | • | • | • | |
| **Gwariant y Cyfnod Nesaf** | • | • | • | • | | | |
| **Trafodiadau Gwariant** | | | • | • | • | • | |
| **Incwm** | | | • | • | • | • | |
| **Incwm y Cyfnod Nesaf** | | • | | • | | | |
| **Trafodiadau Incwm** | | | • | • | • | • | |
| **Dangosyddion** | | | • | • | • | • | • |
| **Methiannau Dilysu** | • | • | • | • | • | • | • |
| **Crynodeb o Daliadau** | • | • | • | • | • | • | • |

• **yn nodi** y bydd modd gweld y tab.



Ni ellir gweld y tab Crynodeb o Daliadau pan fydd yr Hawliad yn cael ei ddewis i ddechrau a bydd ond yn ymddangos pan fydd manylion yr Hawliad wedi'u cofnodi, eu dilysu a phan fydd Statws yr Hawliad (a welir yn y Pennawd) yn dweud 'dilys'.

Bydd rhannau darllen yn unig yr hawliad wedi'u tywyllu er mwyn eu gwahaniaethu o'r rhannau sydd angen i chi eu llenwi.

Bydd gennych chi'r opsiwn o fynd yn ôl i'r sgrin Crynodeb o'r Hawliad o fewn pob hawliad trwy ddewis y tab Crynodeb o'r Hawliad.

### 3.4 Dilysu Hawliad

**Rhaid** i'r hawliad fod yn ddilys cyn y gellir ei gyflwyno i WEFO. I gael gwybodaeth fanwl am fethiannau Dilysu, ewch i **Adran 10.**

### 3.5 Goddefiannau

Caiff goddefiannau eu defnyddio fel offeryn i fesur cynnydd Gweithrediad a gellir ei ddefnyddio mewn unrhyw gategori neu is-gategori Gwariant, Incwm a Dangosyddion. Gall goddefiannau gael eu defnyddio hefyd ar lefel Cyfanswm a Chyfanswm Terfynol Cyfalaf/Refeniw. Dangosir goddefiannau fel canran a bydd yn cael ei gosod gan WEFO a'i chofnodi ar y Proffil Cyflawni cymeradwy. Bydd y ffurflen hawlio'n cael ei dilysu yn erbyn y goddefiannau hyn.

Caniateir trosglwyddiad rhwng categorïau/is-gategorïau'r Gwariant Cymwys o fewn y goddefiannau a osodwyd yn y Proffil Cyflawni cymeradwy (fel arfer hyd at 15%). Bydd angen i'ch **Swyddog Datblygu Gweithrediad (SDG) gymeradwyo** unrhyw newidiadau uwchlaw'r lefel hon cyn cyflwyno'ch hawliadau, a gallai olygu y bydd angen i WEFO ail-werthuso'r Gweithrediad.

**<u>Ni</u>** chaniateir trosglwyddo gwariant rhwng is-gategorïau Cyfalaf a Refeniw, Opsiynau Cost Syml a chategorïau eraill; na rhwng costau Gwirioneddol a chostau mewn nwyddau.

### 3.6 Pennawd yr Hawliad

Dangosir y ***pennawd*** ar **bob** sgrin Hawliad. At ddibenion gwybodaeth yn unig yw hwn (h.y. nid oes angen cofnodi unrhyw ddata) ac mae'n dangos y canlynol:

| | |
|---|---|
| **Rhif Adnabod yr Achos** *(darllen yn unig)* | Wedi'i dynnu o'r Proffil Cyflawni cymeradwy ymlaen llaw |
| **Enw'r Achos** *(darllen yn unig)* | Wedi'i dynnu o'r Proffil Cyflawni cymeradwy ymlaen llaw |
| **Enw'r Noddwr** *(darllen yn unig)* | Wedi'i dynnu o'r Proffil Cyflawni cymeradwy ymlaen llaw |
| **Dilyswyd ddiwethaf** *(darllen yn unig)* | Bydd hwn yn wag pan ddewisir yr hawliad i ddechrau, ond bydd yn dangos y *dyddiad* a'r *amser* diweddaraf (dd/mm/bbbb aa:mm) pan gafodd yr hawliad ei ddilysu. |
| **Cyfnod Hawlio** *(darllen yn unig)* | Wedi'i dynnu o'r Proffil Cyflawni cymeradwy ymlaen llaw. Mae hwn yn dangos hyd at ba fis a blwyddyn y dylid adrodd gwariant, incwm a gweithgarwch. |
| **Statws Hawliad** *(darllen yn unig)* | Bydd hwn yn dangos 'Gwahoddwyd' pan ddewisir yr Hawliad i ddechrau, 'Ar Waith' pan fydd yr hawliad yn cael ei gyflwyno a 'Talwyd' pan fydd yr hawliad wedi'i awdurdodi gan WEFO i gael ei dalu. |
| **Statws Dilysu Hawliad** *(darllen yn unig)* | Bydd hwn yn dangos 'Heb Ddechrau' pan fydd yr Hawliad yn cael ei ddewis i ddechrau, ond bydd yn newid i naill ai 'Annilys' neu 'Dilys' pan fydd y defnyddiwr wedi dewis dilysu'r hawliad gan ddefnyddio'r botwm 'Dilysu' (gweler **Adran 10** am fwy o fanylion). |
| **Math o Arian** *(darllen yn unig)* | Wedi'i dynnu o'r Proffil Cyflawni cymeradwy ymlaen llaw. Bydd yn dangos 'GBP' neu 'EURO' – yn dibynnu ar y math o arian a gymeradwywyd i'w defnyddio i dalu'r Gweithrediad. |


# 4. Manylion Sylfaenol

## 4. Manylion Sylfaenol

Pan fydd Hawliad wedi cael ei ddewis, bydd y tab Manylion Sylfaenol yn dangos yn ddiofyn; mae 3 ‘tab’ o fewn y sgrin hon:

- **Cyffredinol**
- **Materion Cyllidol**
- **Dyddiadau Allweddol**


Mae’r sgriniau hyn yn cynnwys gwybodaeth fwy manwl am eich Gweithrediad / hawliad ac mae’r rhain hefyd er gwybodaeth yn unig. Ar eich hawliad cyntaf, dim ond un maes fydd angen i chi ei lenwi, sef y Dyddiad Dechrau Gwirioneddol a gellir dod o hyd i hwn dan y tab ‘**Dyddiadau Allweddol**’.




Dyma’r meysydd o fewn y tab **‘Cyffredinol’** ar sgrin Manylion Sylfaenol yr Hawliad:

| | |
|---|---|
| **Rhif yr Hawliad** *(darllen yn unig)* | Wedi’i dynnu ymlaen llaw gyda Rhif Adnabod Hawliad unigryw. |
| **Math o Hawliad** *(darllen yn unig)* | Nodi a yw hawliad yn ‘Ariannol’ neu’n ‘Ddangosydd yn unig’. |
| **Rhaglen** *(darllen yn unig)* | Wedi’i dynnu o’r Proffil Cyflawni cymeradwy ymlaen llaw. |
| **Blaenoriaeth** *(darllen yn unig)* | Wedi’i dynnu o’r Proffil Cyflawni cymeradwy ymlaen llaw. |
| **Thema** *(darllen yn unig)* | Wedi’i dynnu o’r Proffil Cyflawni cymeradwy ymlaen llaw. |
| **Swyddog Taliadau Arweiniol** *(darllen yn unig)* | Wedi’i dynnu ymlaen llaw. Cyswllt Ymholiadau Hawliadau WEFO. |


| | |
|---|---|
| **Swyddog Hawliadau Noddwyr** *(darllen yn unig)* | Wedi'i dynnu ymlaen llawn. Cyswllt Hawliadau dynodedig y Buddiolwr Arweiniol. |
| **Math o Daliad** *(darllen yn unig)* | Wedi'i dynnu o'r Proffil Cyflawni cymeradwy ymlaen llaw (naill ai'n Ôl-daliad neu'n Flaendal). |
| **Cyfradd/Angen** *(darllen yn unig)* | Wedi'i dynnu o'r Proffil Cyflawni cymeradwy ymlaen llaw. |
| **Rhestr Trafodion wedi'i Chyflwyno** | Ddim yn gymwys bellach am fod y rhestr trafodiadau wedi cael ei hintegreiddio i mewn i'r hawliad. |
| **Manylion Archwilio i'w Darparu** | Ddim yn gymwys bellach am nad oes angen Adroddiadau Cyfrifwyr allanol ar gyfer Rhaglenni Arian Strwythurol 2014-20. |
| **Trafodwyd Rhagolygon ariannol y prosiect â WEFO** | Os ydych am drafod eich proffil gyda WEFO, mae gennych chi gyfle yma i ddewis 'ydw' |
| **Cyflwynwyd yr Hawliad gan** *(darllen yn unig)* | Bydd y maes hwn yn wag pan fydd gan yr Hawliad statws 'Gwahoddwyd', ond bydd yn tynnu enw mewngofnodi cyswllt y Buddiolwr pan fydd yr hawliad wedi'i gyflwyno. |




Dyma'r meysydd o fewn y tab 'Materion Cyllidol' ar sgrin Manylion Sylfaenol yr Hawliad:

| | |
|---|---|
| **Cyfradd Gadw (%)** *(darllen yn unig)* | Wedi'i dynnu o'r Proffil Cyflawni cymeradwy ymlaen llaw. (gweler **Adran 2.8** am fwy o fanylion). |
| **Gwariant Gros a Gymeradwywyd** *(darllen yn unig)* | Wedi'i dynnu o'r Proffil Cyflawni cymeradwy ymlaen llaw. |
| **Gwariant Cymwys a Gymeradwywyd** *(darllen yn unig)* | Wedi'i dynnu o'r Proffil Cyflawni cymeradwy ymlaen llaw. |
| **Gwariant Cyfalaf Cymwys** *(darllen yn unig)* | Wedi'i dynnu o'r Proffil Cyflawni cymeradwy ymlaen llaw. |
| **Gwariant Refeniw Cymwys** *(darllen yn unig)* | Wedi'i dynnu o'r Proffil Cyflawni cymeradwy ymlaen llaw. |

| | |
|---|---|
| **Gwariant Anghymwys** *(darllen yn unig)* | Wedi'i dynnu o'r Proffil Cyflawni cymeradwy ymlaen llaw. |
| **Grant wedi'i Gymeradwyo** *(darllen yn unig)* | Wedi'i dynnu o'r Proffil Cyflawni cymeradwy ymlaen llaw. |
| **Grant wedi'i gymeradwyo – Cyfalaf** *(darllen yn unig)* | Wedi'i dynnu o'r Proffil Cyflawni cymeradwy ymlaen llaw. |
| **Grant wedi'i Gymeradwyo – Refeniw** *(darllen yn unig)* | Wedi'i dynnu o'r Proffil Cyflawni cymeradwy ymlaen llaw. |
| **Grant a Dalwyd Hyd yn Hyn** *(darllen yn unig)* | Cyfanswm y grant a awdurdodwyd ar yr hawliadau a gyflwynwyd hyd yn hyn. |
| **Cyfradd Ymyrryd (%)** *(darllen yn unig)* | Wedi'i dynnu o'r Proffil Cyflawni cymeradwy ymlaen llaw. |
| **Cyfradd Ymyrryd – Cyfalaf (%)** *(darllen yn unig)* | Wedi'i dynnu o'r Proffil Cyflawni cymeradwy ymlaen llaw (lle bo'n briodol). |
| **Cyfradd Ymyrryd – Refeniw (%)** *(darllen yn unig)* | Wedi'i dynnu o'r Proffil Cyflawni cymeradwy ymlaen llaw (lle bo'n briodol). |




Dyma'r meysydd o fewn y tab '**Dyddiadau Allweddol'** ar sgrin Manylion Sylfaenol yr Hawliad:

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cau Cyflwyno'r Hawliad** *(darllen yn unig)* | Wedi'i dynnu ymlaen llaw; fel arfer o fewn 3 wythnos i'r Cyfnod Hawlio. |
| **Dyddiad Cau Cyflwyno'r Archwiliad** *(darllen yn unig)* | Ddim yn gymwys bellach am nad oes angen Adroddiadau Cyfrifwyr allanol ar gyfer Rhaglenni Arian Strwythurol 2014-20. |
| **Dyddiad Dechrau Ôl-weithredol / Rhagarweiniol** *(darllen yn unig)* | Wedi'i dynnu o'r Proffil Cyflawni cymeradwy ymlaen llaw (lle bo'n briodol). |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Dechrau'r Gwariant a Gymeradwywyd** *(darllen yn unig)* | Wedi'i dynnu o'r Proffil Cyflawni cymeradwy ymlaen llaw. Mae'n adlewyrchu'r dyddiad lle gellir dechrau gwario a thalu gwariant. |
| *** Dyddiad Dechrau'r Gwariant Gwirioneddol** | Bydd hwn yn wag ar yr hawliad cyntaf a gyflwynir ar gyfer Gweithrediad a bydd angen i chi gofnodi'r dyddiad gwirioneddol y dechreuodd y gweithgarwch ac, felly, y dyddiad cyntaf y cafwyd gwariant ar y Weithrediad. |

**Rheolau dilysu sy'n rheoli 'Dyddiad Dechrau Gwirioneddol y Gwariant':**

- Rhaid i'r Dyddiad Dechrau gael ei nodi mewn fformat dd/mm/bbbb;
- Ni all y Dyddiad Dechrau fod yn ddyddiad yn y dyfodol;
- Ni all y Dyddiad Dechrau fod cyn 'Dyddiad Dechrau'r Gwariant a Gymeradwywyd';
- Ni all y Dyddiad Dechrau fynd y tu hwnt i Ddyddiad Cau'r Cyfnod Hawlio (oni bai ei fod yn Hawliad cyntaf);
- Os bydd y Dyddiad Dechrau'n wahanol iawn i Ddyddiad Dechrau'r Gwariant Cymeradwyol – bydd angen eglurhad (gallai hyn olygu y bydd angen i WEFO ail-werthuso'r Gweithrediad);
- Os bydd y Dyddiad Dechrau yn newid o'r hyn a gyflwynwyd ar yr hawliad – bydd angen eglurhad.

Os bydd y dyddiad a gofnodir yn torri unrhyw un o'r rheolau dilysu hyn, byddwch chi'n cael eich hysbysu gan neges a fydd yn ymddangos mewn blwch o dan y Pennawd.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cwblhau Ariannol** *(darllen yn unig)* | Wedi'i dynnu o'r Proffil Cyflawni cymeradwy ymlaen llaw. Mae'n adlewyrchu'r cyfnod diwethaf o wariant neu incwm a gymeradwywyd. |
| **Dyddiad gwahodd y Cais** *(darllen yn unig)* | Wedi'i dynnu ymlaen llaw gyda'r dyddiad y gwahoddwyd yr hawliad. |
| **Dyddiad y Derbyniwyd yr Hawliad** *(darllen yn unig)* | Bydd y maes hwn yn wag pan fydd yr Hawliad gyda'r statws 'Gwahoddwyd', ond bydd cael ei dynnu pan fydd yr hawliad wedi'i gyflwyno. |
| **Dyddiad y Derbyniwyd yr Archwiliad** | Ddim yn gymwys bellach am nad oes angen Adroddiadau Cyfrifwyr allanol ar gyfer Rhaglenni Arian Strwythurol 2014-20. |
| **Dyddiad Cwblhau'r Prosiect** *(darllen yn unig)* | Wedi'i dynnu o'r Proffil Cyflawni cymeradwy ymlaen llaw. Mae'n adlewyrchu'r cyfnod diwethaf o weithgarwch a gymeradwywyd ar y Weithrediad (Gwariant, Incwm neu Ddangosyddion). |
| **Cyfnod Hawlio a Dalwyd Ddiwethaf** *(darllen yn unig)* | Bydd yn wag ar yr hawliad cyntaf, ond bydd wedi'i dynnu ar hawliadau dilynol gyda dyddiad diwedd y cyfnod hawlio a dalwyd diwethaf. |

Pan fyddwch chi wedi cofnodi'r wybodaeth ofynnol ar y sgrîn hon, rhaid i chi ei harbed.

Cofiwch 'ARBED' y wybodaeth rydych chi wedi'i chofnodi bob amser (gan ddefnyddio'r botwm 'Arbed') fel na fyddwch chi'n colli unrhyw ddata sydd 'heb ei arbed'.

Pan fyddwch chi'n dewis y botwm **'Arbed'**, bydd neges gadarnhau yn arddangos i'ch hysbysu bod y wybodaeth a gofnodwyd wedi'i harbed yn llwyddiannus.

Rhaid i chi ddewis ‘**Nôl’** ar ôl hyn, a fydd yn eich tywys yn ôl i’r sgrîn Manylion Sylfaenol.

Wedi hyn, gall y data a gofnodwyd cael ei ddilysu trwy ddewis ‘**Dilysu**’. Os bydd y data a gofnodwyd yn torri unrhyw un o’r rheolau dilysu, bydd neges yn ymddangos mewn blwch o dan y Pennawd.

# 5. Gwariant


# 5. Gwariant

O fewn yr hawliad, dangosir manylion gwariant ar 2 sgrîn - **'Gwariant'** a **'Trafodiadau Gwariant'**.

Mae'r sgrîn **'Gwariant'** yn dangos **'Manylion Gwariant'** y Weithrediad o dan y tabiau canlynol:

- **Gwariant Cronnus yr Hawliad Diwethaf a Dalwyd (darllen yn unig)**
- **Gwariant Cronnus y Proffil Cyflawni hyd yn hyn (darllen yn unig)**
- **Gwariant Cronnus hyd yn hyn ***
- **Gwariant y Cyfnod Hwn (darllen yn unig)**
- **Cyfanswm y Gost a Ragwelir ar gyfer y Prosiect**

Mae ***** yn dynodi'r golofn y bydd y trafodiadau gwariant y byddwch chi'n eu lanlwytho'n cael eu cyfuno o'i mewn a lle dangosir y canlyniadau .



## Manylion Gwariant

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhif adnabod yr achos | 90893 | Cyfnod Hawlio | 2015/03 |
| Enw'r achos | Welsh Name | Statws Hawliad | Gwahoddwyd |
| Enw'r Noddwr | UAT-WAG DEandT WEFO | Statws Dilysu Hawliad | Ar y gweill |
| Dilyswyd Ddiwethaf | | Math o arian | GBP |


Gwariant Cronnus yr Hawliad Diwethaf a Dalwyd | Gwariant Cronnus y Proffil Cyflawni Hyd yn Hyn | Gwariant Cronnus Hyd yn Hyn | Gwariant y Cyfnod Hwn | Cyfanswm y Gost a Ragwelir ar gyfer y Prosiect

| Math | Categori | Is-Gategor | Cyfalaf/Refeniw | Goddefiant(%) | Gros(GBP) | Anghymwys(GBP) | Cymwys(GBP) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwirioneddol | Marchnata a hyrwyddo | Hysbysebu a hyrwyddo | Cyfalaf | I FFWRDD | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| | **Cyfanswm Marchnata a hyrwyddo** | | **Cyfalaf** | **15** | **0.00** | **0.00** | **0.00** |
| Gwirioneddol | Teithio a chludiant | Teithio a Chynhaliaeth | Cyfalaf | I FFWRDD | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| | **Cyfanswm Teithio a chludiant** | | **Cyfalaf** | **15** | **0.00** | **0.00** | **0.00** |
| | **Cyfanswm Gwirioneddol** | | | | **0.00** | **0.00** | **0.00** |
| | **Cyfanswm Cyfalaf** | | | **15** | **0.00** | **0.00** | **0.00** |
| | **Cyfanswm Refeniw** | | | | **0.00** | **0.00** | **0.00** |
| | **Cyfanswm** | | | **15** | **0.00** | **0.00** | **0.00** |


Golygu Dilysu

Mae'r sgrîn 'Trafodiadau Gwariant' yn dangos trafodiadau gwariant y Gweithrediad sydd eisoes wedi cael eu cyflwyno (mewn perthynas â'r Cyfnod Hawlio Cyfredol neu Gyfnod Hawlio Blaenorol). I weld trafodiadau a gyflwynwyd mewn Cyfnod Hawlio blaenorol, defnyddiwch y cwympflwch Cyfnod Hawlio.

| | |
|---|---|
| | Byddwch ond yn gallu lanlwytho'r rhestr drafodiadau os yw ar y fformat a ddarparwyd gan WEFO. |




Caiff trafodiadau gwariant eu lanlwytho trwy'r templed trafodiadau gwariant sydd ar dab **'Dogfennau'r Hawliadau'** yr hawliad.




Gellir gweld enghraifft o'r templed isod, ynghyd â rhestr gyflawn o'r manylion sydd eu hangen ar gyfer pob math o drafodiad gwariant a gyflwynir i gael cymorth ariannol:

| | A | B | C | D | E | F | G | H | I | J | K | L |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Math o Wariant | Cyfalaf neu Refeniw | Categori Gwariant y Cytunwyd Arno | Is-gategori Gwariant y Cytunwyd Arno | Buddiolwr / Cyd-fuddiolwr | TALEDIG | TALEDIG / Cyfeirnod CRN | Rhif y contract a gaffaelwyd / Cyfeirnod y prosiect | Dyddiad yr Anfoneb / Dogfen | Disgrifiad o'r Nwyddau neu Wasanaethau | Dyddiad Talu'r Trafodiad | Math o C |
| 2 | Gwirioneddol | Refeniw | Gweinyddiaeth | Gweinyddiaeth arall | UAT-Swansea University | sdf | 34t5345 | | 12/05/2015 | dfbf | 12/05/2015 | |
| 3 | | | | | | | | | | | | |
| 4 | | | | | | | | | | | | |
| 5 | | | | | | | | | | | | |

| PENNAWD Y RHESTR DRAFODIADAU | Gorfodol / Dewisol | Gwerthoedd | Sylwadau | Dilysiad |
|---|---|---|---|---|
| **Math o wariant** | Gorfodol | Gwirioneddol / mewn Nwyddau / Caffael / Costau Syml | Math o wariant yr anfoneb / trafodiad | Rhaid iddo fod yn gyson â'r Proffil Cyflawni cytunedig |
| **Cyfalaf neu Refeniw** | Gorfodol | Cyfalaf / Refeniw | P'un a yw'r anfoneb / trafodiad yn gost Cyfalaf neu Refeniw | Rhaid iddo fod yn gyson â'r Proffil Cyflawni cytunedig |
| **Categori Gwariant y Cytunwyd Arno** | Gorfodol | Cwymprestr | Categori'r gwariant y mae'r anfoneb / trafodiad yn ymwneud ag ef | Rhaid iddo fod yn gyson â'r Proffil Cyflawni cytunedig |
| **Is-gategori Gwariant y Cytunwyd Arno** | Gorfodol | Cwymprestr | Is-gategori'r gwariant y mae'r anfoneb / trafodiad yn ymwneud ag ef | Rhaid iddo fod yn gyson â'r Proffil Cyflawni cytunedig |
| **Buddiolwr / Cyd-fuddiolwr** | Gorfodol | Cwymprestr | Enw'r Buddiolwr (Cyd-fuddiolwr Arweiniol) sy'n hawlio costau'r nwyddau neu wasanaethau o'r Weithrediad | Rhaid iddo fod yn gyson â'r Proffil Cyflawni cytunedig |
| **TALEDIG** | Gorfodol ar gyfer math o Wariant = Gwirioneddol / Caffael | Cofnodi â llaw | Cyflenwr y nwyddau neu'r gwasanaethau; ***neu*** enw'r Staff/ Cyfranogwr neu'r cyfeirnod (lle nad oes enw wedi'i roi); ***neu*** Enw'r Buddiolwr sy'n derbyn Cymorth Ariannol ***(cynlluniau cymorth yn unig)*** | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **TALEDIG / Cyfeirnod CRN** | Gorfodol ar gyfer math o Wariant = Gwirioneddol / mewn Nwyddau / Caffael | Cofnodi â llaw | Rhif Cyfeirnod yr anfoneb / trafodiad; ***neu*** Rhif Cyfeirnod Staff/cyfranogwr; ***neu*** Cod adnabod unigryw'r Buddiolwr sy'n derbyn Cymorth Ariannol ***(cynlluniau cymorth yn unig)*** [Rhif Cyfeirnod Cwsmer ar gyfer AF&M] | Cyfeirnod wyth nod yw Rhif Cyfeirnod y Cwsmer, sy'n cynnwys alffabetig 'A' ac yna 7 rhif |
| **Rhif y Contract a Gaffaelwyd / Cyfeirnod y Prosiect** | Gorfodol ar gyfer math o Wariant = Caffael | Cofnodi â llaw | Cyfeirnod y Contract a Gaffaelwyd o dab Caffael yr hawliad; ***neu*** Rhif Cyfeirnod Prosiect y cynllun grant a weinyddir gan y Buddiolwr ***(cynlluniau cymorth yn unig)*** | Rhaid iddo gyd-fynd â chofnod yn nhab Caffael yr Hawliad. Yn ddelfrydol, wedi'i gysylltu â'r tab Caffael yn y PPIMS a dim ond ar gael pan fydd y contract wedi'i ddiweddaru yn y PPIMS |
| **Dyddiad yr Anfoneb / Dogfen** | Gorfodol ar gyfer math o Wariant = Gwirioneddol / mewn Nwyddau / Caffael | Cofnodi â llaw | Dyddiad yr anfoneb / dogfen (dyddiad yr anfoneb dreth ddylai hwn fod, ac nid y dyddiad ar yr anfoneb profforma) | Rhaid iddo fod cyn neu'r un dyddiad â Dyddiad talu'r Trafodiad, ac nid cyn dechrau ffisegol y Weithrediad (h.y. y Dyddiad Dechrau Gwirioneddol ar gyflwyniad yr hawliad cyntaf) |
| **Disgrifiad o'r Nwyddau neu Wasanaethau** | Gorfodol ar gyfer math o Wariant = Gwirioneddol / mewn Nwyddau / Caffael | Cofnodi â llaw | Disgrifiad byr o natur y gwariant sy'n cael ei hawlio | |
| **Dyddiad Talu'r Trafodiad** | Gorfodol ar gyfer math o Wariant = Gwirioneddol / mewn Nwyddau / Caffael | Cofnodi â llaw | Y dyddiad y cafodd yr anfoneb / trafodiad ei ***dalu*** h.y. **y dyddiad y gwnaeth y swm glirio yng nghyfrif banc y Buddiolwr Arweiniol neu'r Cyd-fuddiolwr** | Rhaid iddo fod cyn neu'r un dyddiad â Dyddiad Diwedd y Cyfnod Hawlio, ac nid cyn dechrau ffisegol y Weithrediad (h.y. y dyddiad ar gyflwyniad yr hawliad cyntaf). |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Opsiwn Cost Syml** | **Math o Opsiwn** | Gorfodol ar gyfer math o Wariant = Cost Syml | Cwymprestr | Y math o opsiwn Cost Syml sydd wedi'i gytuno ar gyfer y Gweithrediad | Bydd y mathau sydd ar gael i'w dewis yn dibynnu ar beth sydd wedi'i gytuno yn y Proffil Cyflawni cymeradwy |
| | **Cyfradd £ / %** | Gorfodol ar gyfer math o Wariant = Cost Syml | Cofnodi â llaw | Cost uned / cyfradd safonol yr Opsiwn Cost Syml a gytunwyd yn y Proffil Cyflawni cymeradwy | Rhaid iddo fod yn gyson â'r Proffil Cyflawni cytunedig |
| | **Nifer yr Unedau a hawliwyd** | Gorfodol ar gyfer math o Wariant = Cost Syml | Cofnodi â llaw | Nifer yr unedau sy'n cael eu hawlio | Ni ellir hawlio mwy na chyfanswm nifer yr unedau y cytunwyd arno yn y Proffil Cyflawni. |
| | **Cyfnod – Mis / Blwyddyn** | Gorfodol ar gyfer y Gwariant sy'n cael ei hawlio fesul ***Cost Uned*** | Cofnodi â llaw | Y mis calendr y mae'r gwariant sy'n cael ei hawlio fesul cost uned yn ymwneud ag ef. | Ni ellir bod yn hwyrach na dyddiad diwedd y Cyfnod Hawlio (MM/BB) |
| **Swm Gros Anfoneb / Trafodiad** | | Gorfodol ar gyfer math o Wariant = Gwirioneddol / mewn Nwyddau / Caffael | Cofnodi â llaw | Cyfanswm swm yr anfoneb / trafodiad (gallai hwn fod yn wahanol i'r 'Swm Gros a Hawlir' lle mae anfoneb yn cynnwys gwariant nad sy'n ymwneud â'r Gweithrediad); ***neu*** Cyfanswm gwerth y gwariant cymwys y seilir y gyfradd safonol arni | Gall fod yn negyddol i WEFO yn unig |
| **Swm Gros a Hawliwyd** | | Gorfodol | Cofnodi â llaw | Cyfanswm swm yr anfoneb / trafodiad sy'n berthnasol i'ch Arian Strwythurol (ON: Rhaid tynnu TAW adferadwy oddi ar y swm hwn); ***neu*** Cyfanswm gwerth y gwariant a hawliwyd o ganlyniad i'r cyfrifiad Cost Syml | Pan fydd unedau'n cael eu hawlio dan SCO, system sy'n dilysu swm Gros = Cyfradd Uned a Hawlir *; rhaid iddo fod yn llai neu'n gyfwerth â Swm Gros yr Anfoneb / Trafodiad |


| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Swm Anghymwys** | Gorfodol | Cofnodi â llaw | Swm yr anfoneb / trafodiad (os o gwbl) sy'n cael ei ystyried yn anghymwys er ei fod yn berthnasol i Arian Strwythurol eich Gweithrediad. | |
| **Swm Cymwys a Hawliwyd** | Wedi'i gyfrifo | Wedi'i gyfrifo'n awtomatig | Swm Cymwys a Hawlir = Swm Gros a Hawlir – Swm Anghymwys. Wedi'i gyfrifo gan fformiwla yn y templed wedi'i theilwra | Rhaid i hwn fod y swm Gros a hawlir gan dynnu i ffwrdd y Swm Anghymwys. |
| **Sylwadau Ariannol** | Gorfodol lle y mae cofnodion negyddol mewn unrhyw 3 colofn flaenorol. | Cofnodi â llaw | Rhaid nodi sylwadau pan fydd yna gofnod negyddol yn bodoli ar un o'r 3 colofn flaenorol | Cyfanswm o 255 o eiriau mewn fformat rhydd |
| **Gwybodaeth gefnogol** | Dewisol | Cofnodi â llaw | Ar gyfer WEFO, dylai hwn gynnwys rhif(au) cyfresol yr ased(au) (lle mae'r trafodiad yn ymwneud â phrynu ased). Ar gyfer AF&M, bydd hwn yn cynnwys cyfeirnod i'r dogfennau cefnogol a gyflwynwyd. | |

### 5.1 Trafodiadau Gwariant

Pan fyddwch chi'n barod i lanlwytho eich Trafodiadau Gwariant, agorwch y templed Trafodiadau Ariannol sydd yn nhab 'Dogfennau'r Hawliadau' yr Hawliad. Llenwch y tab '**Trafodiadau Gwariant'** gyda'r trafodiadau ar gyfer y cyfnod hawlio.

Caiff ffeiliau trafodiadau eu cwblhau fesul **<u>cyfnod</u>** yn unig; unwaith y byddwch wedi lanlwytho'ch ffeiliau trafodiadau cyfnod, byddant yn cael eu hychwanegu at y trafodiadau a gyflwynwyd yn flaenorol er mwyn adlewyrchu'r gwariant cronnus hyd yn hyn.

Byddwch yn gallu dewis cyfuniadau amrywiol o linellau cost, fel y cytunwyd yn eich Proffil Cyflawni, trwy ddewis y cwympflychau, fel y gwelir yn y rhan o drafodiad a restrir isod.




Sicrhewch eich bod ond yn dewis y cyfuniadau a nodir yn eich Proffil Cyflawni cymeradwy gan mai dyma'r unig **gyfuniadau cymeradwy** a fydd yn cael eu derbyn pan fyddwch chi'n ceisio lanlwytho'r ffeil trafodiadau gyflawn.

Pan fyddwch am hawlio gwariant ar gontractau caffael, sicrhewch eich bod yn dewis Caffael yn y Math o Wariant (ar y Rhestr Drafodiadau) yn hytrach na Gwirioneddol neu Mewn Nwyddau) a sicrhau fod manylion y contract(au) caffael wedi'u nodi ar dab Caffael yr Hawliad ***<u>cyn</u>*** ceisio lanlwytho trafodiadau sy'n ymwneud â'r contract(au).

Os na fydd manylion y contract(au)'n cael eu hadlewyrchu yn yr Hawliad, ni fyddwch chi'n gallu cyflwyno trafodiadau sy'n ymwneud â chostau contract caffael.

Pan fydd yr holl drafodiadau perthnasol wedi'u cofnodi, arbedwch y ffeil fel **ffeil .CSV**.

Cyn arbed y ffeil fel ffeil .CSV, dylech ei harbed fel llyfr gwaith Excel ar gyfer eich cofnodion eich hun oherwydd mae'n haws gwneud newidiadau ar fformat ffeil Excel os bydd angen i chi ail-agor y ffeil.

Dim ond fformat ffeil .CSV fydd yn cael ei dderbyn pan fyddwch chi'n lanlwytho'r ffeil i WEFO Ar-lein; os yw'r ffeil rydych chi'n ceisio'i lanlwytho mewn fformat arall, bydd yn cael ei gwrthod.

I **lanlwytho'r** trafodiadau gwariant, ewch i dab **'Trafodiadau Gwariant'** yr hawliad, dewiswch Pori a'r botwm Lanlwytho i lwytho'r ffeil.

Os na fydd gennych chi unrhyw wariant i'w hawlio ar gyfer y cyfnod cyfredol, ticiwch y blwch 'Nid oes trafodiadau gwariant wedi'u llwytho ar gyfer yr hawliad hwn eto' a dewiswch 'Arbed'.


Gallwch lanlwytho sawl ffeil rhestr drafodiadau ar gyfer pob hawliad, a bydd rhaid i chi gywiro unrhyw wallau dilysu ar bob rhestr cyn ceisio lanlwytho mwy o ffeiliau.


Bydd y system yn rhedeg rheolau dilysu ar y data o fewn y ffeil a gaiff ei lanlwytho er mwyn sicrhau bod y data cywir wedi'i ddarparu, a'ch bod wedi cadw at y fformat cywir.

Bydd y system ond yn dangos yr 20 gwall cyntaf, ac os bydd gan 5 trafodiad olynol wallau, bydd y ffeil yn cael ei gwrthod.

Os bydd gennych fwy nag 20 gwall, cynghorir chi i adolygu pob trafodiad dilynol er mwyn sicrhau nad yw'r un gwall wedi digwydd yn y trafodion hynny sydd ar ôl.

Cyn lanlwytho'r ffeil, cynghorir chi i adolygu'r cynnwys er mwyn sicrhau bod y manylion yn gywir.




[Rhes: 2][Dyddiad yr Anfoneb / Dogfen] : Ni all y maes fod cyn dyddiad cyflwyno'r hawliad cyntaf (rhaid gosod dyddiad cychwyn gwirioneddol y gwariant ar yr hawliad)

[Rhes: 2][Math o Opsiwn] : Mae hwn yn faes gorfodol

[Rhes: 2][Cyfradd £ / %] : Mae hwn yn faes gorfodol

[Rhes: 2][Nifer yr unedau a hawliwyd] : Mae hwn yn faes gorfodol

[Rhes: 2][Cyfnod Mis/Blwyddyn] : Mae hwn yn faes gorfodol

[Rhes: 3] : Rhaid bod cyfuniad o'r colofnau 'Math o Wariant','Cyfalaf neu Refeniw','Categori Gwariant y Cytunwyd Arno','Is-Gategori Gwariant y Cytunwyd Arno' yn cyfateb â llinell ar y Tab Gwariant Proffil Cyflawni

[Rhes: 3][Cyfeirnod TALEDIG / CRN] : Mae hwn yn faes gorfodol

[Rhes: 3][Rhif y contract a gaffaelwyd / Cyfeirnod y prosiect] : Mae cyfeirnod y contract a gaffaelwyd yn orfodol os mai "Caffael" yw'r math gwariant

[Rhes: 3][Dyddiad yr Anfoneb / Dogfen] : Ni all y maes fod cyn dyddiad cyflwyno'r hawliad cyntaf (rhaid gosod dyddiad cychwyn gwirioneddol y gwariant ar yr hawliad)

[Rhes: 3][Disgrifiad o'r Nwyddau neu Wasanaethau] : Mae hwn yn faes gorfodol

[Rhes: 3][Dyddiad Talu'r Trafodiad] : Rhaid i'r maes fod cyn neu'n gyfartal â Dyddiad Diwedd y Cyfnod Hawlio

[Rhes: 3][Swm Crynswth yr Anfoneb / Trafodiad] : Mae swm trafodiad yr anfoneb yn orfodol oni bai mai "Syml" yw'r math gwariant

[Rhes: 3][Swm Crynswth a Hawliwyd] : Mae hwn yn faes gorfodol

[Rhes: 3][Swm Anghymwys] : Mae hwn yn faes gorfodol

[Rhes: 3][Swm Cymwys a Hawliwyd] : Mae hwn yn faes gorfodol

Statws Dilysu Trafodiad Gwariant  Heb Gychwyn

Cyfnod Hawlio  May 2015 (Cyfredol)


| | Math o Wariant | Cyfalaf neu Refeniw | Categori Gwariant y Cytunwyd Arno | Is-gategori Gwariant y Cytunwyd Arno | Buddiolwr/Cyd-fuddiolwr | TALEDIG | Cyfeirnod TALEDIG / CRN | Rhif y contract a gaffaelwyd / Cyfeirnod y prosiect | Dyddiad yr Anfoneb / Dogfen | Disgrifiad o'r Nwyddau neu Wasanaethau | Dyddiad Talu'r Trafodiad | Math o Opsiwn | Cyfradd £ / % | Nifer yr unedau a hawliwyd | Cyfı Misı |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | Syml | Refeniw | Cost Fesul Uned | Cost Fesul Uned - Staff | | sdfge | 45345 | dfdf | 12/05/2015 | | 13/05/2015 | | | | |

| | |
|---|---|
|  | Os byddwch yn symud o'r tab Trafodiadau Gwariant pan fydd y negeseuon am y gwallau'n ymddangos, byddwch chi'n colli manylion y gwallau, a bydd rhaid i chi lanlwytho'r ffeil eto i weld y negeseuon am y gwallau.<br><br>*Naill ai* cadwch y tab ar agor tra'ch bod chi'n gwneud y diwygiadau perthnasol i'r ffeil.CSV file *neu* tynnwch sgrin lun o'r gwallau cyn symud o'r tab hwn. |

Bydd angen i chi ddiwygio'r ffeil drafodiadau ar gyfer pob gwall a nodir. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd angen i chi dynnu'r trafodiad allan (e.e. taliad y tu allan i'r cyfnod hawlio).

Pan fyddwch chi wedi gwneud y cywiriadau gofynnol, arbedwch y ffeil .csv **ddiwygiedig** a lanlwythwch hi eto.

Os ydych chi wedi llwyddo i gywiro'r holl fethiannau dilysu, bydd y system yn dangos y rhestr o drafodiadau a lanlwythwyd, yn debyg i'r sgrin lun isod:





Ar y pwynt hwn, gallwch naill ai ddewis '**Cyflwyno'** y ffeil drafodiadau neu '**Canslo'** y lanlwytho,

Bydd dewis '**Cyflwyno'** y ffeil yn bwydo trafodiadau'r ffeil i mewn i'r hawliad.

Bydd dewis '**Canslo'** y ffeil yn gwrthod yr holl drafodiadau o fewn y ffeil honno.


Os byddwch chi'n dewis '**Cyflwyno'** y ffeil drafodiadau, bydd y neges lwyddiant ganlynol yn ymddangos:




Pan fyddwch chi'n dychwelyd i'r sgrîn 'Gwariant', bydd y trafodiadau wedi'u hychwanegu ac i'w gweld yn y tab **'Gwariant y Cyfnod Hwn'**. Bydd y trafodiadau gwariant a gyflwynwyd yn cael eu hychwanegu hefyd at y trafodiadau a gyflwynwyd mewn hawliadau blaenorol a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y tab **'Gwariant Cronnus Hyd yn Hyn'**.

Mae’r golofn **‘Amrywiadau’** ar y tab **‘Gwariant cronnus Hyd yn Hyn’** yn dangos canran yr amrywiad rhwng yr **‘Incwm Cronnus y Proffil Cyflawni Hyd yn Hyn’** a’r **‘Incwm Cronnus Hyd yn Hyn’**.

Os bydd eich gwariant cronnus hyd yn hyn, o ganlyniad i’r trafodiadau rydych chi wedi’u cyflwyno, yn golygu y bydd angen i chi ddiwygio’r rhagolygon gwariant, bydd angen i chi fynd i dab **‘Manylion Gwariant’** yr hawliad, dewis y tab **‘Cyfanswm y Gost a Ragwelir ar gyfer y Prosiect’** ac yna gwasgu’r botwm **‘Golygu’**.


Manylion Gwariant


Rhif adnabod yr achos | Cyfnod Hawlio
Enw’r achos | Statws Hawliad
Enw’r Noddwr | Statws Dilysu Hawliad
Dilyswyd Ddiwethaf | Math o arian

Gwariant Cronnus yr Hawliad Diwethaf a Dalwyd | Gwariant Cronnus y Proffil Cyflawni Hyd yn Hyn | Gwariant Cronnus Hyd yn Hyn | Gwariant y Cyfnod Hwn | Cyfanswm y Gost a Ragwelir ar gyfer y Prosiect

| Math | Categori | Is-Gategor | Cyfalaf/Refeniw | Goddefiant(%) | Gros(GBP) | Anghymwys(GBP) | Cymwys(GBP) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwirioneddol | Gweinyddiaeth | Gweinyddiaeth arall | Refeniw | I FFWRDD | 150.00 | 0.00 | 150.00 |
| | **Cyfanswm Gweinyddiaeth** | | **Refeniw** | **15** | **150.00** | **0.00** | **150.00** |
| Syml | Cyfradd Wastad | CW-15-CYFF | Refeniw | I FFWRDD | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| | **Cyfanswm Cyfradd Wastad** | | **Refeniw** | **15** | **0.00** | **0.00** | **0.00** |
| Gwirioneddol | TGCh | Defnyddiau traul TGCh | Refeniw | I FFWRDD | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| Gwirioneddol | TGCh | Prynu caledwedd | Refeniw | I FFWRDD | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| | **Cyfanswm TGCh** | | **Refeniw** | **15** | **0.00** | **0.00** | **0.00** |
| Caffael | Marchnata a hyrwyddo | Hysbysebu a hyrwyddo | Refeniw | I FFWRDD | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| Gwirioneddol | Marchnata a hyrwyddo | Arddangosfeydd a Chynadleddau | Refeniw | I FFWRDD | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| | **Cyfanswm Marchnata a hyrwyddo** | | **Refeniw** | **15** | **0.00** | **0.00** | **0.00** |
| Caffael | Gwasanaeth Proffesiynol | Ffioedd ymgynghori | Refeniw | I FFWRDD | 0.00 | 0.00 | 0.00 |

Golygu | Dilysu

Bydd hyn yn bwydo i mewn i’r data o naill ai’r Proffil Cyflawni (ar gyfer hawliadau cyntaf) neu’r Hawliad a Dalwyd Ddiwethaf (ar gyfer hawliadau dilynol). Byddwch chi’n gallu teipio dros y data hwn os oes angen gyda manylion y rhagolygon gwariant diweddaraf.



| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwirioneddol | Gweinyddiaeth | Gweinyddiaeth arall | Refeniw | 150.00 | 0.00 | 43,936.00 | 0.00 |
| Syml | Cyfradd Wastad | CW-15-CYFF | Refeniw | 0.00 | 0.00 | 982,230.00 | 0.00 |
| Gwirioneddol | TGCh | Defnyddiau traul TGCh | Refeniw | 0.00 | 0.00 | 43,170.00 | 0.00 |
| Gwirioneddol | TGCh | Prynu caledwedd | Refeniw | 0.00 | 0.00 | 25,600.00 | 0.00 |
| Caffael | Marchnata a hyrwyddo | Hysbysebu a hyrwyddo | Refeniw | 0.00 | 0.00 | 172,661.00 | 0.00 |
| Gwirioneddol | Marchnata a hyrwyddo | Arddangosfeydd a Chynadleddau | Refeniw | 0.00 | 0.00 | 313,186.00 | 0.00 |
| Caffael | Gwasanaeth Proffesiynol | Ffioedd ymgynghori | Refeniw | 0.00 | 0.00 | 1,495,896.00 | 0.00 |
| Gwirioneddol | Gwasanaeth Proffesiynol | Gwerthuso datblygu a monitro | Refeniw | 0.00 | 0.00 | 50,000.00 | 0.00 |
| Syml | Cost Fesul Uned | Cost Fesul Uned - Staff | Refeniw | 0.00 | 0.00 | 6,548,200.00 | 0.00 |




***DS: Ni all Cyfanswm y Gost Gymwys a Ragwelir ar gyfer y Prosiect fod yn fwy na Chyfanswm y Cyfalaf a Refeniw Cymwys a Gymeradwywyd. Rhaid i unrhyw orwariant a ragwelir yng Nghyfanswm y Gost Gymwys a Ragwelir ar gyfer y Prosiect (cynnydd yng nghyfanswm costau'r prosiect) gael ei gofnodi fel gwariant anghymwys a rhaid iddo gyd-fynd â'r un swm o incwm anghymwys.***

Pan fyddwch chi wedi diwedd lanlwytho eich ffeil(iau) trafodiadau gwariant, ac wedi addasu'r tab **'Cyfanswm y Gost a Ragwelir ar gyfer y Prosiect'** (os oes angen), bydd angen i chi gadarnhau bod y gwerthoedd gwariant yn barod i'w dilysu. Er mwyn gwneud hyn, ewch i waelod tab **'Manylion Gwariant'** yr hawliad a dewiswch **'Golygu'**. Yna, ticiwch y blwch '**Dilysu Data Gwariant**' a dewiswch '**Arbed'**.



Wedi hyn, gallwch ddilysu’r data gwariant a gofnodwyd trwy ddewis y botwm **‘Dilysu’** ar waelod y tab **‘Manylion Gwariant’**.




| Math | Categori | Is-Gategor | Cyfalaf/Refeniw | Goddefiant(%) | Gros(GBP) | Anghymwys(GBP) | Cymwys(GBP) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwirioneddol | Gweinyddiaeth | Gweinyddiaeth arall | Refeniw | I FFWRDD | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| | **Cyfanswm Gweinyddiaeth** | | **Refeniw** | **15** | **0.00** | **0.00** | **0.00** |
| Syml | Cyfradd Wastad | CW-15-CYFF | Refeniw | I FFWRDD | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| | **Cyfanswm Cyfradd Wastad** | | **Refeniw** | **15** | **0.00** | **0.00** | **0.00** |
| Gwirioneddol | TGCh | Defnyddiau traul TGCh | Refeniw | I FFWRDD | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| Gwirioneddol | TGCh | Prynu caledwedd | Refeniw | I FFWRDD | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| | **Cyfanswm TGCh** | | **Refeniw** | **15** | **0.00** | **0.00** | **0.00** |
| Caffael | Marchnata a hyrwyddo | Hysbysebu a hyrwyddo | Refeniw | I FFWRDD | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| Gwirioneddol | Marchnata a hyrwyddo | Arddangosfeydd a Chynadleddau | Refeniw | I FFWRDD | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| | **Cyfanswm Marchnata a hyrwyddo** | | **Refeniw** | **15** | **0.00** | **0.00** | **0.00** |
| Caffael | Gwasanaeth Proffesiynol | Ffioedd ymgynghori | Refeniw | I FFWRDD | 0.00 | 0.00 | 0.00 |



I gael mwy o fanylion ar Ddilysu, ewch i **Adran 10**.

# 6. Gwariant y Cyfnod Nesaf (Taliadau Ymlaen Llaw yn Unig)

## 6. Gwariant y Cyfnod Nesaf (Taliadau Ymlaen Llaw yn Unig)

Dewiswch y tab **‘Gwariant y Cyfnod Nesaf’**. Bydd y sgrîn grynodeb **‘Gwariant Cymwys y Cyfnod Hawlio Nesaf’** yn ymddangos.

### Gwariant Cymwys y Cyfnod Hawlio Nesaf

| | |
|---|---|
| Rhif adnabod yr achos | Cyfnod Hawlio |
| Enw'r achos | Statws Hawliad |
| Enw'r Noddwr | Statws Dilysu Hawliad |
| Dilyswyd Ddiwethaf | Math o arian |

[Gweinyddiaeth] [Refeniw] Gwariant cymwys: mae'r cyfnod nesaf o fewn neu'n torri terfyn goddefiant, ond mae tanwariant yn y cyfanswm hyd yn hyn - rhaid rhoi esboniad
[Marchnata a hyrwyddo] [Refeniw] Gwariant cymwys: mae'r cyfnod nesaf o fewn neu'n torri terfyn goddefiant, ond mae tanwariant yn y cyfanswm hyd yn hyn - rhaid rhoi esboniad
[Gwasanaeth Proffesiynol] [Refeniw] Gwariant cymwys: mae'r cyfnod nesaf o fewn neu'n torri terfyn goddefiant, ond mae tanwariant yn y cyfanswm hyd yn hyn - rhaid rhoi esboniad

| Math | Categori | Is-Gategor | Cyfalaf/Refeniw | Proffil Cyflawni Cronnus (GBP) | Rhagolwg Cronnus (GBP) | Rhagolwg Cyfnod (GBP) | Amrywiadau o'r Proffil Cyflawni (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwirioneddol | Gweinyddiaeth | Gweinyddiaeth arall | Refeniw | 12,540.00 | 12,540.00 | 7,707.00 | 0.000000 |
| | **Cyfanswm Gweinyddiaeth** | | **Refeniw** | **12,540.00** | **12,540.00** | **7,707.00** | **0.000000** |
| Syml | Cyfradd Wastad | CW-15-CYFF | Refeniw | 135,750.00 | 135,750.00 | 75,496.96 | 0.000000 |
| | **Cyfanswm Cyfradd Wastad** | | **Refeniw** | **135,750.00** | **135,750.00** | **75,496.96** | **0.000000** |
| Gwirioneddol | TGCh | Defnyddiau traul TGCh | Refeniw | 2,100.00 | 2,700.00 | 43.00 | 29.000000 |
| Gwirioneddol | TGCh | Prynu caledwedd | Refeniw | 0.00 | 3,000.00 | 837.00 | 999.000000 |
| | **Cyfanswm TGCh** | | **Refeniw** | **2,100.00** | **5,700.00** | **880.00** | **171.000000** |
| Caffael | Marchnata a hyrwyddo | Hysbysebu a hyrwyddo | Refeniw | 24,500.00 | 24,500.00 | 24,500.00 | 0.000000 |
| Gwirioneddol | Marchnata a hyrwyddo | Arddangosfeydd a Chynadleddau | Refeniw | 120,250.00 | 120,250.00 | 110,250.00 | 0.000000 |

Bydd y colofnau ar ochr chwith y sgrîn yn dangos manylion llawn penawdau gwariant y categorïau ac is-gategorïau, fel y cytunwyd yn y Proffil Cyflawni.


Gellir gweld manylion Gwariant Cymwys y Cyfnod Hawlio Nesaf ar gyfer y Gweithrediad dan y penawdau canlynol:

- **Proffil Cyflawni Cronnus** *(darllen yn unig)*
- **Rhagolygon Cronnus** *
- **Rhagolygon Cyfnod** *(darllen yn unig)*
- **Amrywiadau o’r PC (%)** *(darllen yn unig)*

Mae * yn dynodi’r colofnau lle bydd y data y byddwch chi’n ei gofnodi’n cael ei ddangos; mae’r colofnau eraill wedi’u llenwi ymlaen llaw gyda gwybodaeth o’r Proffil Cyflawni neu o’r data rydych chi wedi’i gofnodi.

Mae’r Cyfnod Hawlio Nesaf yn cyfeirio at y cyfnod nesaf y disgwylir hawliad ar y Proffil Cyflawni. Fel arfer, bydd hwn yn gyfnod o dri mis.

Pan fyddwch chi’n barod i gofnodi gwariant y cyfnod nesaf, dewiswch y botwm **‘Golygu’** ar waelod y sgrîn. Bydd manylion Gwariant y Cyfnod Nesaf ar gael i’w golygu.



## Gwariant Cymwys y Cyfnod Hawlio Nesaf

| | |
|---|---|
| Rhif adnabod yr achos | Cyfnod Hawlio |
| Enw'r achos | Statws Hawliad |
| Enw'r Noddwr | Statws Dilysu Hawliad |
| Dilyswyd Ddiwethaf | Math o arian |

| Math | Categori | Is-Gategor | Cyfalaf/Refeniw | Proffil Cyflawni Cronnus (GBP) | Rhagolwg Cronnus (GBP) | Rhagolwg Cyfnod (GBP) | Amrywiadau o'r Proffil Cyflawni (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwirioneddol | Llety | Trydan | Refeniw | 33,040.00 | 33,040.00 | 33,040.00 | 0.000000 |
| Gwirioneddol | Llety | Celfi a ffitiadau | Refeniw | 87,857.00 | 87,857.00 | 87,857.00 | 0.000000 |
| Gwirioneddol | Llety | Trethi | Refeniw | 16,792.00 | 16,792.00 | 16,792.00 | 0.000000 |
| Gwirioneddol | Llety | Rhent | Refeniw | 713,345.00 | 713,345.00 | 713,345.00 | 0.000000 |
| | **Cyfanswm Llety** | | **Refeniw** | **851,034.00** | **851,034.00** | **851,034.00** | **0.000000** |
| Gwirioneddol | Gweinyddiaeth | Defnyddiau traul | Refeniw | 9,293.00 | 9,293.00 | 9,293.00 | 0.000000 |
| Gwirioneddol | Gweinyddiaeth | Yswiriant | Refeniw | 16,320.00 | 16,320.00 | 16,320.00 | 0.000000 |
| Gwirioneddol | Gweinyddiaeth | Ffonau symudol | Refeniw | 50,420.00 | 50,420.00 | 50,420.00 | 0.000000 |
| Gwirioneddol | Gweinyddiaeth | Llungopio | Refeniw | 15,533.00 | 15,533.00 | 15,533.00 | 0.000000 |
| Gwirioneddol | Gweinyddiaeth | Postio | Refeniw | 50,276.00 | 50,276.00 | 50,276.00 | 0.000000 |

Golygu Dilysu

Byddwch chi'n gweld 2 golofn:

| | |
|---|---|
| **Gwariant Cymwys Cronnus y Proffil Cyflawni ar gyfer y Cyfnod Hawlio Nesaf** *(darllen yn unig)* | Wedi'i lenwi ymlaen llawn o'r Proffil Cyflawni cymeradwy. |
| **Gwariant Cymwys Cronnus a Ragwelir ar gyfer y Cyfnod Hawlio Nesaf** | Maes y gellir ei olygu sy'n cynnwys gwybodaeth o Werthoedd y Proffil Cyflawni ar gyfer y cyfnod hwnnw. Os bydd gwariant disgwyliedig y cyfnod nesaf yn wahanol i'r Proffil Cyflawni, dylid teipio dros y gwerthoedd hyn. |

**DS: Nodwch mai <u>gwariant cymwys cronnus</u> rydych chi'n ei gofnodi yn y golofn hon. Nid oes angen ffigurau crynswth ac anghymwys yn y sgrîn hwn.**

Pan fyddwch chi wedi diwedd cofnodi'r wybodaeth hon, gwasgwch y botwm **'Arbed'** ar waelod y sgrîn.

| | |
|---|---|
|  | Os oes gennych chi lawer o wybodaeth i'w chofnodi, gwasgwch y botwm Arbed yn rheolaidd er mwyn osgoi colli unrhyw ddata a fewnbynnwyd |

Er mwyn cadarnhau bod y data'n barod i'w ddilysu, ticiwch y blwch **'Dilysu Data Gwariant y Cyfnod Nesaf'** ac yna **'Arbed'**. Pan fyddwch chi wedi arbed yn llwyddiannus, cliciwch ar y botwm **'Allan'** i fynd â chi'n ôl i dab Gwariant y Cyfnod Nesaf yr hawliad.

Pan fyddwch chi'n dychwelyd i sgrîn grynodeb Gwariant y Cyfnod Nesaf, bydd y wybodaeth a fewnbynnwyd gennych yn dangos yn y golofn Rhagolygon Cronnus. Bydd y golofn **'Rhagolygon Cyfnod'** yn dangos y gwahaniaeth a gyfrifwyd rhwng y **'Gwariant Cronnus Hyd Yn Hyn'** (Tab Gwariant) a'r gwerthoedd **'Rhagolygon Cronnus'** a gofnodwyd. Bydd y golofn **'Amrywiadau o'r PC'** yn dangos canran yr amrywiadau rhwng gwerthoedd cronnus y Proffil Cyflawni a'r gwerthoedd a gofnodwyd.

**DS: Os bydd yr amrywiadau'n uwch neu'n is na'r goddefiant cytunedig (a ddangosir yn y tab Gwariant), bydd angen i chi gyflwyno esboniadau pan ddilysir yr hawliad (gweler Adran 10).**

# 7. Incwm


# 7. Incwm

O fewn yr Hawliad, dangosir manylion incwm ar 2 sgrîn – **'Incwm'** a **'Trafodiadau Incwm'.**

Mae'r sgrîn **'Incwm'** yn dangos y **'Manylion Incwm'** ar gyfer y Gweithrediad, dan y tabiau canlynol:

- **Incwm Cronnus yr Hawliad Diwethaf a Dalwyd (darllen yn unig)**
- **Incwm Cronnus y Proffil Cyflawni Hyd yn Hyn (darllen yn unig)**
- **Incwm Cronnus Hyd yn Hyn ***
- **Incwm y Cyfnod Hwn (darllen yn unig)**
- **Cyfanswm Incwm a Ragwelir ar gyfer y Prosiect**

Mae * yn dynodi'r golofn lle y bydd y trafodiadau incwm y byddwch chi'n eu lanlwytho'n cael eu hychwanegu at ei gilydd a lle dangosir y canlyniadau.



Manylion Incwm

Rhif adnabod yr achos
Enw'r achos
Enw'r Noddwr
Dilyswyd Ddiwethaf

Cyfnod Hawlio
Statws Hawliad
Statws Dilysu Hawliad
Math o arian


Incwm Cronnus yr Hawliad Diwethaf a Dalwyd | Incwm Cronnus y Proffil Cyflawni Hyd yn Hyn | Incwm Cronnus Hyd yn Hyn | Incwm Cronnus Hyd yn Hyn | Cyfanswm Incwm a Ragwelir ar gyfer y Prosiect

| Math | Categori | Sefydliad | Cyfalaf/Refeniw | Goddefiant(%) | Gros(GBP) | Anghymwys(GBP) | Cymwys(GBP) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwirioneddol | Cyhoeddus | | Refeniw | 15 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| | Cyfanswm Gwirioneddol | | | 15 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| | Cyfanswm Cyfalaf | | | | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| | Cyfanswm Refeniw | | | 15 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| | Cyfanswm | | | 15 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |


Golygu | Dilysu

Telerau ac Amodau | Help a Chyfarwyddyd | Cysylltu â Ni


Mae'r sgrîn **'Trafodiadau Incwm'** yn dangos y trafodiadau incwm ar gyfer y Gweithrediad sydd wedi cael eu cyflwyno eisoes (naill ai yn y Cyfnod Hawlio cyfredol neu mewn Cyfnod Hawlio blaenorol). Er mwyn gweld trafodiadau a gyflwynwyd mewn Cyfnod Hawlio blaenorol, defnyddiwch gwympflwch y Cyfnod Hawlio.




Caiff trafodiadau incwm eu lanlwytho trwy'r templed trafodiadau incwm sydd ar dab **'Dogfennau'r Hawliadau'** yr hawliad.



Gellir gweld enghraifft o'r templed isod, ynghyd â rhestr gyflawn o'r manylion sydd eu hangen ar gyfer pob math o drafodiad incwm a gyflwynir ar gyfer cymorth ariannol:





| PENNAWD Y RHESTR DRAFODIADAU | Gorfodol / Dewisol | Gwerthoedd | Sylwadau | Dilysiad |
|---|---|---|---|---|
| **Math o Incwm** | Gorfodol | Gwirioneddol / Mewn Nwyddau | Y math o incwm | Rhaid iddo fod yn gyson â'r Proffil Cyflawni cytunedig |
| **Cyfalaf neu Refeniw** | Gorfodol | Cyfalaf / Refeniw | P'un a yw'r incwm yn Gyfalaf neu'n Refeniw | Rhaid iddo fod yn gyson â'r Proffil Cyflawni cytunedig |
| **Ffynhonnell / Sefydliad** | Gorfodol | | Dyma enw'r Buddiolwr/Cyd-fuddiolwr sy'n darparu'r arian cyfatebol. | Rhaid iddo fod yn gyson â'r Proffil Cyflawni cytunedig |
| **Cyfeirnod y Ddogfen** | Dewisol | | Dylai rhif cyfeirnod y ddogfen incwm gynnwys y cyfeirnod sy'n gysylltiedig â'r incwm y mae'r Buddiolwr yn ei dderbyn, e.e. TMF (Y Gronfa Arian Cyfatebol a Dargedir) | Uchafswm o 100 o nodau. Fformat rhydd. |
| **Dyddiad Derbyn** | Gorfodol | | Y dyddiad y derbyniwyd yr incwm, h.y. y dyddiad y cyrhaeddodd y swm gyfrif banc y Buddiolwr Arweiniol neu'r Trydydd Parti. | Rhaid iddo fod cyn neu'r un dyddiad â Dyddiad Diwedd y Cyfnod Hawlio, ac nid cyn dechrau ffisegol y Gweithrediad (h.y. y dyddiad ar gyflwyniad yr hawliad cyntaf). |
| **Incwm Crynswth** | Gorfodol | | Swm crynswth yr incwm a dderbyniwyd. | |
| **Incwm Anghymwys** | Gorfodol | | Swm yr incwm (os o gwbl) sy'n cael ei ystyried yn anghymwys er ei fod yn berthnasol i Arian Strwythurol eich Gweithrediad. | |
| **Incwm Cymwys** | Wedi'i gyfrifo | | Incwm Cymwys = Incwm Crynswth – Incwm Anghymwys. Wedi'i gyfrifo gan fformiwla yn y templed wedi'i deilwra | Rhaid iddo fod yr Incwm Crynswth gyda'r Incwm Anghymwys wedi'i dynnu i ffwrdd. |

### 7.1 Trafodiadau Incwm

Pan fyddwch chi'n barod i lanlwytho eich Trafodiadau Incwm, agorwch y Templed Trafodiadau Incwm sydd yn nhab **'Dogfennau'r Hawliadau'** yr Hawliad. Llenwch y tab 'Trafodiadau Incwm' gyda'r trafodiadau ar gyfer y cyfnod hawlio.

Caiff ffeiliau trafodiadau eu cwblhau fesul **cyfnod** yn unig; unwaith y byddwch wedi lanlwytho'ch ffeiliau trafodiadau cyfnod, byddant yn cael eu hychwanegu at y trafodiadau a gyflwynwyd yn flaenorol er mwyn adlewyrchu'r incwm cronnus hyd yn hyn.

Byddwch chi'n gallu dewis cyfuniadau gwahanol o linellau incwm fel y cytunwyd yn eich Proffil Cyflawni trwy ddewis y cwympflychau, fel y gwelir yn y darn o drafodiad a ddangosir isod.





Sicrhewch eich bod ond yn dewis y cyfuniadau a nodir yn eich Proffil Cyflawni cymeradwy. Nodwch mai dyma'r unig gyfuniadau cymeradwy a fydd yn cael eu derbyn pan fyddwch chi'n ceisio lanlwytho'r ffeil trafodiadau gyflawn.

Pan fydd yr holl drafodiadau incwm perthnasol wedi'u cofnodi, arbedwch y ffeil fel **ffeil .CSV**.

Cyn arbed y ffeil fel ffeil .CSV file, dylech ei harbed fel llyfr gwaith Excel ar gyfer eich cofnodion eich hun oherwydd mae'n haws gwneud newidiadau ar fformat ffeil Excel os bydd angen i chi ail-agor y ffeil.

Dim ond fformat ffeil .CSV fydd yn cael ei dderbyn pan fyddwch chi'n lanlwytho'r ffeil i WEFO Ar-lein; os yw'r ffeil rydych chi'n ceisio'i lanlwytho mewn fformat arall, bydd yn cael ei gwrthod.

I **lanlwytho'r** trafodiadau incwm, ewch i dab Trafodiadau Incwm yr hawliad, dewiswch y botwm **'Pori'** a **'Lanlwytho'** i lwytho'r ffeil.




Os na fydd gennych chi unrhyw wariant i'w hawlio ar gyfer y cyfnod cyfredol, **ticiwch y blwch** 'Nid oes trafodiadau gwariant wedi'u llwytho ar gyfer yr hawliad hwn eto' a dewiswch '**Arbed'**.


Gallwch lanlwytho sawl ffeil rhestr drafodiadau ar gyfer pob hawliad, a bydd rhaid i chi gywiro unrhyw wallau dilysu ar bob rhestr cyn ceisio lanlwytho mwy o ffeiliau.

Bydd y system yn rhedeg rheolau dilysu ar y data o fewn y ffeil a gaiff ei lanlwytho er mwyn sicrhau bod y data cywir wedi'i ddarparu, a'ch bod wedi cadw at y fformat cywir.

Bydd y system ond yn dangos yr 20 gwall cyntaf, ac os bydd gwallau gan 5 trafodiad olynol, bydd y ffeil yn cael ei gwrthod.

Os bydd gennych fwy nag 20 gwall, cynghorir chi i adolygu pob trafodiad dilynol er mwyn sicrhau nad yw'r un gwall wedi digwydd yn y trafodion hynny sydd ar ôl.

Cyn lanlwytho'r ffeil, cynghorir chi i adolygu'r cynnwys er mwyn sicrhau bod y manylion yn gywir.





| | |
|---|---|
| | Os byddwch yn symud o'r tab Trafodiadau Incwm pan fydd y negeseuon am y gwallau'n ymddangos, byddwch chi'n colli manylion y gwallau, a bydd rhaid i chi lanlwytho'r ffeil eto i weld y negeseuon am y gwallau.<br><br>*Naill ai* cadwch y tab ar agor tra byddwch chi'n gwneud y diwygiadau perthnasol i'r ffeil.CSV *neu* tynnwch sgrîn lun o'r gwallau cyn symud o'r tab hwn. |

Bydd angen i chi ddiwygio'r ffeil drafodiadau ar gyfer pob gwall a nodir. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd angen i chi dynnu'r trafodiad allan (e.e. taliad y tu allan i'r cyfnod hawlio).

Pan fyddwch chi wedi gwneud y cywiriadau gofynnol, arbedwch y ffeil .csv **ddiwygiedig** a'i lanlwytho eto.

Os ydych chi wedi llwyddo i gywiro’r holl fethiannau dilysu, bydd y system yn dangos y rhestr o drafodiadau a lanlwythwyd, yn debyg i’r sgrîn lun isod:





Ar y pwynt hwn, gallwch naill ai ddewis ‘**Cyflwyno’** y ffeil drafodiadau neu ‘**Canslo’** y lanlwytho,

Bydd dewis ‘**Cyflwyno’** y ffeil yn bwydo trafodiadau’r ffeil i mewn i’r hawliad.

Bydd dewis ‘**Canslo’** y ffeil yn gwrthod yr holl drafodiadau o fewn y ffeil honno.

Os byddwch chi’n dewis ‘**Cyflwyno’** y ffeil drafodiadau, bydd y neges lwyddiant ganlynol yn ymddangos:




Pan fyddwch chi’n dychwelyd i’r sgrîn **‘Incwm’**, bydd y trafodiadau incwm a gyflwynwyd wedi’u crynhoi ac i’w gweld yn y tab **‘Incwm y Cyfnod Hwn’**. Bydd y trafodiadau incwm a gyflwynwyd yn cael eu hychwanegu hefyd i’r trafodiadau a gyflwynwyd gyda hawliadau blaenorol, a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y tab **‘Incwm Cronnus Hyd yn Hyn’**. Mae’r golofn **‘Amrywiadau’** ar y tab **‘Incwm Cronnus Hyd yn Hyn’** yn dangos canran yr amrywiadau rhwng **‘Incwm Cronnus y Proffil Cyflawni Hyd yn Hyn’** a’r **‘Incwm Cronnus Hyd yn Hyn’**.

Os bydd eich incwm cronnus hyd yn hyn, o ganlyniad i'r trafodiadau rydych chi wedi'u cyflwyno, yn golygu y bydd angen i chi ddiwygio'r rhagolygon incwm, bydd angen i chi fynd i dab **'Incwm'** yr hawliad, dewis y tab **'Cyfanswm Incwm a Ragwelir ar gyfer y Prosiect'** ac yna gwasgu'r botwm **'Golygu'**.

## Manylion Incwm

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhif adnabod yr achos | | Cyfnod Hawlio | |
| Enw'r achos | | Statws Hawliad | |
| Enw'r Noddwr | | Statws Dilysu Hawliad | |
| Dilyswyd Ddiwethaf | | Math o arian | |

Incwm Cronnus yr Hawliad Diwethaf a Dalwyd | Incwm Cronnus y Proffil Cyflawni Hyd yn Hyn | Incwm Cronnus Hyd yn Hyn | Incwm Cronnus Hyd yn Hyn | Cyfanswm Incwm a Ragwelir ar gyfer y Prosiect

| Math | Categori | Sefydliad | Cyfalaf/Refeniw | Goddefiant(%) | Gros(GBP) | Anghymwys(GBP) | Cymwys(GBP) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwirioneddol | Cyhoeddus | | Refeniw | 15 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| | Cyfanswm Gwirioneddol | | | 15 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| | Cyfanswm Cyfalaf | | | | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| | Cyfanswm Refeniw | | | 15 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| | Cyfanswm | | | 15 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |

Golygu | Dilysu

Bydd hyn yn bwydo i mewn i'r data o naill ai'r Proffil Cyflawni (ar gyfer hawliadau cyntaf) neu'r Hawliad Diwethaf a Dalwyd (ar gyfer hawliadau dilynol). Byddwch chi'n gallu teipio dros y data hwn os bydd angen gyda manylion diweddaraf y rhagolygon incwm.

## Golygu Manylion Incwm

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhif adnabod yr achos | | Cyfnod Hawlio | |
| Enw'r achos | | Statws Hawliad | |
| Enw'r Noddwr | | Statws Dilysu Hawliad | |
| Dilyswyd Ddiwethaf | | Math o arian | |

| Math | Categori | Sefydliad | Cyfalaf/Refeniw | Incwm Cronnus Gros Hyd yn Hyn (GBP) | Incwm Cronnus Anghymwys Hyd yn Hyn (GBP) | Cyfanswm yr Incwm Gros a Ragwelir ar gyfer y Prosiect (GBP) | Cyfanswm yr Incwm Anghymwys a Ragwelir ar gyfer y Prosiect (GBP) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwirioneddol | Cyhoeddus | | Refeniw | 1,000.00 | 0.00 | 2,418,720.00 | 0.00 |

Dilysu'r Data Incwm ☐


Arbed yr | Allan

**D.S. Rhaid i unrhyw gyfraniadau "mewn nwyddau" (h.y. trafodiad heb arian sy'n cynrychioli, er enghraifft, werth cynnyrch, gwasanaeth neu amser) a ddangosir yn erbyn unrhyw gategori / is-gategori gael cofnod gwariant ac incwm "mewn nwyddau" yr un fath ar gyfer y categori/is-gategori hwnnw ar bob cam o'r Gweithrediad, a rhaid cefnogi hyn gan ddogfennau priodol, e.e. taflenni amser. Pan ddefnyddir taflenni amser, rhaid i'r rhain fod yn seiliedig ar werthoedd gwirioneddol ac nid gwerthoedd tybiannol neu amcangyfrifedig.**

Pan fyddwch chi wedi diwedd lanlwytho'ch ffeil(iau) trafodiadau incwm, ac wedi addasu **'Cyfanswm Incwm a Ragwelir ar gyfer y Prosiect'** (os oes angen), bydd angen i chi gadarnhau bod gwerthoedd y dangosyddion yn barod i'w dilysu. I wneud hyn, ewch i waelod tab 'Incwm' yr hawliad a dewiswch **'Golygu'**. Yna, ticiwch y blwch **'Dilysu Data Incwm'** a dewis **'Arbed'**.




Wedi hyn, gallwch ddilysu'r data incwm a gofnodwyd trwy ddewis y botwm **'Dilysu'** ar waelod y sgrîn Incwm.


Manylion Incwm

Rhif adnabod yr achos
Enw'r achos
Enw'r Noddwr
Dilyswyd Ddiwethaf
Cyfnod Hawlio
Statws Hawliad
Statws Dilysu Hawliad
Math o arian

Incwm Cronnus yr Hawliad Diwethaf a Dalwyd | Incwm Cronnus y Proffil Cyflawni Hyd yn Hyn | Incwm Cronnus Hyd yn Hyn | Incwm Cronnus Hyd yn Hyn | Cyfanswm Incwm a Ragwelir ar gyfer y Prosiect

| Math | Categori | Sefydliad | Cyfalaf/Refeniw | Goddefiant(%) | Gros(GBP) | Anghymwys(GBP) | Cymwys(GBP) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwirioneddol | Cyhoeddus | | Refeniw | 15 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| | Cyfanswm Gwirioneddol | | | 15 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| | Cyfanswm Cyfalaf | | | | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| | Cyfanswm Refeniw | | | 15 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| | Cyfanswm | | | 15 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |

Golygu
Dilysu

**DS: Os bydd yr amrywiadau'n uwch neu'n is na'r goddefiant cytunedig, bydd angen i chi gyflwyno esboniadau pan ddilysir yr hawliad (gweler Adran 10).**

# 8. Incwm y Cyfnod Nesaf (Taliadau Angen Ymlaen Llaw yn Unig)

## 8. Incwm y Cyfnod Nesaf (Taliadau Angen Ymlaen Llaw yn Unig)

Dewiswch y tab **'Incwm y Cyfnod Nesaf'**. Bydd sgrîn grynodeb **'Incwm y Cyfnod Nesaf'** yn ymddangos.

### Incwm Cymwys y Cyfnod Hawlio Nesaf

| | |
|---|---|
| Rhif adnabod yr achos | Cyfnod Hawlio |
| Enw'r achos | Statws Hawliad |
| Enw'r Noddwr | Statws Dilysu Hawliad |
| Dilyswyd Ddiwethaf | Math o arian |

| Math | Categori | Sefydliad | Cyfalaf/Refeniw | Proffil Cyflawni Cronnus (GBP) | Rhagolwg Cronnus (GBP) | Rhagolwg Cyfnod (GBP) | Amrywiadau o'r Proffil Cyflawni (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwirioneddol | Cyhoeddus | TMF- Targeted Match Funding | Refeniw | 404,511.00 | 404,511.00 | 185,510.00 | 0.000000 |
| | Cyfanswm Gwirioneddol | | | 404,511.00 | 404,511.00 | 185,510.00 | 0.000000 |
| | Cyfanswm Cyfalaf | | | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.000000 |
| | Cyfanswm Refeniw | | | 404,511.00 | 404,511.00 | 185,510.00 | 0.000000 |
| | Cyfanswm | | | 404,511.00 | 404,511.00 | 185,510.00 | 0.000000 |

Telerau ac Amodau Help a Chyfarwyddyd Cysylltu â Ni

Bydd y colofnau ar ochr chwith y sgrîn yn dangos manylion llawn y Sefydliadau a'r ffynonellau incwm cymeradwy, fel y cytunwyd yn y Proffil Cyflawni.

Bydd manylion yr **'Incwm Cymwys ar gyfer y Cyfnod Hawlio Nesaf'** ar gyfer y Gweithrediad yn cael eu dangos dan y penawdau canlynol:

- **Proffil Cyflawni Cronnus** *(darllen yn unig)*
- **Rhagolygon Cronnus** *
- **Rhagolygon Cyfnod** *(darllen yn unig)*
- **Amrywiadau o'r PC (%)** *(darllen yn unig)*

Mae * yn dynodi'r colofnau lle bydd y data byddwch chi'n ei gofnodi'n cael ei ddangos; mae'r colofnau eraill wedi'u llenwi ymlaen llaw gyda gwybodaeth o'r Proffil Cyflawni neu o'r data rydych chi wedi'i gofnodi.

Mae'r Cyfnod Hawlio Nesaf yn cyfeirio at y cyfnod nesaf y disgwylir hawliad ar y Proffil Cyflawni. Fel arfer, bydd hwn yn gyfnod o dri mis.

Pan fyddwch chi'n barod i gofnodi incwm y cyfnod nesaf, dewiswch y botwm **'Golygu'** ar waelod y sgrîn. Bydd manylion Incwm y Cyfnod Nesaf ar gael i'w golygu yn yr un modd â'r Gwariant (gweler Adran 6).

Byddwch chi'n gweld 2 golofn:

| | |
|---|---|
| **Incwm Cymwys Cronnus y Proffil Cyflawni ar gyfer y Cyfnod Hawlio Nesaf** *(darllen yn unig)* | Wedi'i lenwi ymlaen llawn o'r Proffil Cyflawni cymeradwy. |
| **Incwm Cymwys Cronnus a Ragwelir ar gyfer y Cyfnod Hawlio Nesaf** | Maes y gellir ei olygu sy'n cynnwys gwybodaeth o Werthoedd y Proffil Cyflawni ar gyfer y cyfnod hwnnw. Os bydd incwm disgwyliedig y cyfnod nesaf yn wahanol i'r Proffil Cyflawni, dylid teipio dros y gwerthoedd hyn. |

**DS: Nodwch mai <u>incwm cymwys cronnus</u> rydych chi'n ei gofnodi yn y golofn hon. Nid oes angen ffigurau crynswth ac anghymwys yn y sgrîn hwn.**

Pan fyddwch chi wedi diwedd cofnodi'r wybodaeth hon, gwasgwch y botwm **'Arbed'** ar waelod y sgrîn.

| | |
|---|---|
|  | Os oes gennych chi lawer o wybodaeth i'w chofnodi, gwasgwch y botwm Arbed yn rheolaidd er mwyn osgoi colli unrhyw ddata a fewnbynnwyd |

Er mwyn cadarnhau bod y data'n barod i'w ddilysu, ticiwch y blwch **'Dilysu Data Incwm y Cyfnod Nesaf'** ac yna **'Arbed'**. Pan fyddwch chi wedi arbed yn llwyddiannus, cliciwch ar y botwm **'Allan'** i fynd â chi'n ôl i dab Incwm y Cyfnod Nesaf yr hawliad.

Pan fyddwch chi'n dychwelyd i sgrîn grynodeb **'Incwm y Cyfnod Nesaf'**, bydd y wybodaeth a fewnbynnwyd gennych yn dangos yn y golofn Rhagolygon Cronnus. Bydd y golofn **'Rhagolygon Cyfnod'** yn dangos y gwahaniaeth a gyfrifwyd rhwng yr **'Incwm Cronnus Hyd Yn Hyn'** (Tab Incwm) a gwerthoedd y **'Rhagolygon Cronnus'** a gofnodwyd. Bydd y golofn **'Amrywiadau o'r PC'** yn dangos canran yr amrywiadau rhwng gwerthoedd cronnus y Proffil Cyflawni a'r gwerthoedd a gofnodwyd.

**DS: Os bydd yr amrywiadau'n uwch neu'n is na'r goddefiant cytunedig (a ddangosir yn y tab 'Incwm'), bydd angen i chi gyflwyno esboniadau pan ddilysir yr hawliad (gweler Adran 10).**


# 9. Dangosyddion

## 9. Dangosyddion

Mae angen i fuddiolwyr adrodd ar y cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn y dangosyddion targed cymeradwy (gan gynnwys dadansoddiad o'r Categorïau a'r Meini Prawf) a osodwyd ar gyfer y Gweithrediad yn y Proffil Cyflawni. Rhaid cyflwyno'r ffurflen hawlio er mwyn dangos y cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn pob dangosydd, hyd yn oed os nad oes Cymorth Ariannol yn cael ei hawlio.

Os na fydd y dangosyddion targed cymeradwy'n cael eu cyflawni, mae'n debygol y bydd eich Cymorth Ariannol yn cael ei leihau neu ei dynnu'n ôl.

Pan fyddwch chi'n barod i ddarparu'r wybodaeth hon, ewch i dab **'Manylion Dangosyddion'** yr hawliad fel y nodir. Byddwch chi'n gweld y sgrîn grynodeb Manylion Dangosyddion.


Manylion dangosyddion

Rhif adnabod yr achos
Enw'r achos
Enw'r Noddwr
Dilyswyd Ddiwethaf
Cyfnod Hawlio
Statws Hawliad
Statws Dilysu Hawliad
Math o arian

| Cod Dangosydd | Dangosydd | Math o Ddangosydd | Allwedd | Categori | Meini Prawf | Cyflawniad o'r Hawliad Diwethaf | Cyflawniad Cronnus Hyd yn Hyn | Targed y Proffil Cyflawni Hyd yn Hyn | Amrywiadau Hyd yn Hyn (%) | Cyflawniad Terfynol a Gymeradwywyd o'r Proffil Cyflawni | Cyflawniad Terfynol a Ragwelir | Cyfanswm yr Amrywiadau (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3202 | AP2.1 - Nifer y mentrau sy'n cael grantiau | Allbwn | Nage | | | 0 | 0 | 200 | -100 | 800 | 800 | 0 |




Ar y sgrîn hwn, byddwch chi'n cael gwybodaeth sy'n ymwneud â'r dangosyddion a gytunwyd ym Mhroffil Cyflawni eich Gweithrediad, dan y penawdau colofn canlynol:

| | |
|---|---|
| **Cod Dangosydd** *(darllen yn unig)* | Y cod ar gyfer pob dangosydd penodol. |
| **Dangosydd** *(darllen yn unig)* | Enw pob dangosydd penodol. |
| **Math o Ddangosydd** *(darllen yn unig)* | Y math o ddangosydd, h.y. sut bydd pob dangosydd yn cael ei fesur. |
| **Allwedd** *(darllen yn unig)* | P'un a yw'r Dangosydd yn ddangosydd Allweddol / Mawr. |
| **Categori** *(darllen yn unig)* | Categori / Math o Ddangosydd |
| **Meini Prawf** *(darllen yn unig)* | Y wybodaeth o'r categori, e.e. Categori = Rhyw, Maen prawf = Gwrywaidd neu Benywaidd. |
| **Cyflawniad o'r Hawliad Diwethaf** *(darllen yn unig)* | Gwerth cronnus o'r cais diwethaf a broseswyd (sero fydd hyn ar yr hawliad cyntaf). |
| *** Cyflawniad Cronnus Hyd yn Hyn** | Bob amser yn sero cyn cofnodi. Mae hon yn un o'r colofnau y mae'n rhai i chi ei golygu yn ystod pob cyfnod hawlio (mwy o fanylion isod ). |
| **Targed y Proffil Cyflawni Hyd yn Hyn** *(darllen yn unig)* | Wedi'i gymryd o ffigurau'r Proffil Cyflawni cymeradwy i ddangos y proffil cyflawni ar gyfer y cyfnod hawlio. |
| **Amrywiadau Hyd yn Hyn (%)** *(darllen yn unig)* | Y gwahaniaeth rhwng 'Cyflawniad Cronnus Hyd yn Hyn' a 'Dyddiad Targed Proffil Hyd yn Hyn' wedi'i |

| | |
|---|---|
| | fynegi fel canran. |
| **Cyflawniad Terfynol a Gymeradwywyd o'r Proffil Cyflawni** (*darllen yn unig*) | Wedi''i gymryd o'r Proffil Cyflawni gyda chyfanswm y gwerthoedd cymeradwy ar gyfer pob Categori / Maen Prawf. |
| *** Cyflawniad Terfynol a Ragwelir** | Wedi'i gymryd o'r ffigurau a gofnodwyd ar yr hawliad diwethaf a broseswyd, neu sero os mai dyma'r hawliad cyntaf i gael ei brosesu. Mae hon yn un o'r colofnau y mae'n rhai i chi ei golygu yn ystod pob cyfnod hawlio (mwy o fanylion isod ) |
| **Cyfanswm yr Amrywiadau (%)** | Y gwahaniaeth rhwng 'Cyflawniad Terfynol a Ragwelir' a 'Chyflawniad Terfynol a Gymeradwywyd o'r Proffil Cyflawni' wedi'i fynegi fel canran. |

Mae ***** yn dynodi'r colofnau lle bydd y data a fewnbynnir gennych yn cael ei ddangos; mae pob colofn arall wedi'u llenwi ymlaen llaw â gwybodaeth o'r Proffil Cyflawni cymeradwy, yr Hawliad a Dalwyd Diwethaf neu'n dod o'r data rydych chi wedi'i fewnbynnu.

Pan fyddwch chi'n barod i gofnodi eich manylion Dangosyddion, dewiswch y botwm **'Golygu'** ar waelod y sgrîn. Bydd manylion y Dangosyddion ar gael i'w golygu a byddant yn cael eu dangos ar sgrîn ar wahân fel y gwelir isod:







Ar linell dop pob dangosydd (h.y. y rhes heb gategori na meini prawf), cofnodwch gyfanswm cyffredinol y '**Cyflawniad Cronnus Hyd yn Hyn'**.

Bydd hefyd angen i chi rannu'r Cyflawniad Cronnus Hyd yn Hyn yn ôl lefel ***Categori*** a ***Maen Prawf***, fel y bydd swm pob cofnod maen prawf ar gyfer Categori penodol yr un fath â chyfanswm y Cyflawniad Hyd yn Hyn.

Pan fyddwch chi wedi cofnodi manylion Cyflawniad Cronnus Hyd yn Hyn ar lefel Maen Prawf, rhaid hefyd adlewyrchu'r rhain yn y golofn **'Cyflawniad Terfynol a Ragwelir'** ar lefel maen prawf. Fodd bynnag, nid oes angen rhannu targedau ***nad ydynt wedi'u cyflawni eto*** ar lefel maen prawf; dim ond dangos y rhain ar y rhes dop sydd ei angen (cyflawniad cyffredinol) ar gyfer pob dangosydd (***oni bai*** bod dadansoddiadau o feini prawf yn cael eu cofnodi yn y Proffil Cyflawni cymeradwy).

Yn yr Enghraifft ganlynol (Enghraifft 1), er bod y '**Cyflawniad Cronnus Hyd yn Hyn**' cyffredinol (35) yn gywir, nid yw'r '**Cyflawniad Cronnus Hyd yn Hyn'** ar gyfer y maen prawf (e.e. 25 Gwryw, 10 Benyw, ac ati) wedi cael ei adlewyrchu yn y golofn **'Cyflawniad Terfynol a Ragwelir'**.

***Enghraifft 1: Anghywir X***

| Cod Dangosydd | Dangosydd | Categori | Meini Prawf | Cyflawniad Cronnus Hyd yn Hyn | Cyflawniad Terfynol a Ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|
| 3100 | AP1.1 - Nifer y di-waith tymor byr heb sgiliau/sgiliau isel neu gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio | | | 35 | 3,500 |
| 3100 | AP1.1 - Nifer y di-waith tymor byr heb sgiliau/sgiliau isel neu gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio | Rhyw | Gwrywaidd | 25 | |
| 3100 | AP1.1 - Nifer y di-waith tymor byr heb sgiliau/sgiliau isel neu gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio | Rhyw | Benywaidd | 10 | |
| 3100 | AP1.1 - Nifer y di-waith tymor byr heb sgiliau/sgiliau isel neu gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio | Grwpiau Du ac o Leiafrifoedd Ethnig | Ie | 35 | 35 |

Yn yr Enghraifft hon (Enghraifft 2), dangosir y **Cyflawniad Terfynol a Ragwelir'** yn gywir – dangosir y '**Cyflawniad Cronnus Hyd yn Hyn'** o 35 ar lefel Maen Prawf yn y golofn '**Cyflawniad Terfynol a Ragwelir**', ond caiff gweddill y targed, sef 3,465 (35,000 – 35) sydd eto i'w gyflawni, dim ond ei gynnwys yn y '**Cyflawniad Terfynol a Ragwelir'** o 3,500 ac ***nid*** oes angen ei arddangos ar lefel Maen Prawf.

***Enghraifft 2: Cywir*** √

| Cod Dangosydd | Dangosydd | Categori | Meini Prawf | Cyflawniad Cronnus Hyd yn Hyn | Cyflawniad Terfynol a Ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|
| 3100 | AP1.1 - Nifer y di-waith tymor byr heb sgiliau/sgiliau isel neu gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio | | | 35 | 3,500 |
| 3100 | AP1.1 - Nifer y di-waith tymor byr heb sgiliau/sgiliau isel neu gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio | Rhyw | Gwrywaidd | 25 | 25 |
| 3100 | AP1.1 - Nifer y di-waith tymor byr heb sgiliau/sgiliau isel neu gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio | Rhyw | Benywaidd | 10 | 10 |
| 3100 | AP1.1 - Nifer y di-waith tymor byr heb sgiliau/sgiliau isel neu gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio | Grwpiau Du ac o Leiafrifoedd Ethnig | Ie | 35 | 35 |

Pan fydd yr holl ffigurau wedi'u cofnodi'n gywir, gwiriwch y blwch '**Dilysu'r Data Dangosydd'** ac '**Arbed'** y wybodaeth a gofnodwyd. Pan fyddwch wedi arbed y gwaith yn llwyddiannus, cliciwch ar y botwm '**Allan'** i ddychwelyd i'r sgrîn Dangosyddion. Bydd y wybodaeth a gofnodwyd gennych yn cael ei ddangos, ynghyd â'r amrywiadau a gyfrifwyd. Bydd yr **'Amrywiadau Hyd yn Hyn'** yn dangos canran y gwahaniaeth rhwng y '**Cyflawniad Cronnus Hyd yn Hyn'** a '**Tharged y Proffil Cyflawni Hyd yn Hyn'**. Bydd **'Cyfanswm yr Amrywiadau'** yn dangos canran y gwahaniaeth rhwng y '**Cyflawniad Terfynol a Ragwelir'** a'r '**Cyflawniad Terfynol a Gymeradwywyd o'r Proffil Cyflawni'**.

### 9.1 Cyflwyno data lefel Cyfranogwr/lefel Menter

Bydd angen i Weithrediadau gyflwyno data lefel Cyfranogwr / lefel Menter pan fo angen. Bydd tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso WEFO yn darparu templedi o daenlenni i'r Buddiolwyr a fydd yn nodi'r gofynion data a fformatio ar gyfer cyflwyno'r data hwn.

Mae ffwythiant yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a fydd yn caniatáu i'r data hwn gael ei ddilysu gan y buddiolwr, fel rhan o'r broses ar gyfer cyflwyno'r data, ac i unrhyw ddangosyddion a gyflawnir, lle daw'r data o ddata lefel Cyfranogwr/Menter, gael eu bwydo'n awtomatig i mewn i'r hawliad. Bydd y ffwythiant hwn yn cael ei gyflwyno ar ddiwedd 2015 a dylai fod ar gael erbyn dechrau 2016. Bydd mwy o ganllawiau'n cael eu darparu bryd hynny.

Tan i'r ffwythiant hwn gael ei gyflwyno, bydd angen i Fuddiolwyr lanlwytho'r data fel dogfen hawliadau, gan ddefnyddio'r ddogfen **'Data Buddiolwr'**. Dim ond y cysylltiadau o sefydliad y Buddiolwr sydd wedi cael y rolau 'Cyswllt Hawliadau', 'Swyddog Cynnal Hawliadau' neu'r 'Swyddog Cyflwyno Hawliadau' all gyflwyno'r dogfennau lefel hawlio 'Data Buddiolwr'. Bydd rhaid i fuddiolwyr hefyd gyflwyno'r dangosyddion diweddaraf a gyflawnwyd, fel yr amlinellwyd yn flaenorol yn **Adran 9**.

### 9.2 Hyblygrwydd Traws-gronfa

Pan fydd Gweithrediad wedi cael ei gymeradwyo i gael Hyblygrwydd Traws Gronfa (h.y. pan fydd gan Weithrediad ERDF elfen o arian ESF ynghlwm iddo, ac i'r gwrthwyneb), bydd lefel gymeradwyol y gwariant traws gronfa'n cael ei chofnodi yn yr adran dangosyddion. Bydd angen i chi gofnodi gwerth gwirioneddol y gwariant Traws Gronfa ar gyfer y cyfnod hawlio, ac ni ddylai hwn fod yn fwy na'r swm a Gymeradwywyd. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y lefel gymeradwyol o Hyblygrwydd Traws Gronfa, cysylltwch â'r Prif Swyddog Taliadau cyn cyflwyno'ch ffurflen hawlio.

# 10. Methiannau Dilysu

## 10. Methiannau Dilysu

Cyn y gellir cyflwyno’r hawliad i WEFO, rhaid i’r ‘**Statws Dilysu Hawliad’** fod yn ***Ddilys***.

Er mwyn i hawliad ddod yn ‘**Ddilys’**, rhaid i’r data a gofnodwyd basio cyfres o reolau dilysu. Gallwch ddewis dilysu’r hawliad ar unrhyw adeg trwy ddewis y botwm ‘**Dilysu’** ar waelod y sgrîn. Bydd y rheolau dilysu ar gyfer pob sgrîn/tab ond yn rhedeg pan fyddwch wedi ticio’r blwch dilysu o fewn tudalen olygu’r sgrîn/tab hwnnw.

Os bydd y rheolau dilysu’n cael eu torri, bydd neges yn ymddangos mewn blwch neges o dan bennawd y sgrîn berthnasol. Bydd crynodeb o bob neges hefyd yn ymddangos yn y tab ‘**Methiannau Dilysu’**. Efallai y bydd hi’n haws ac yn fwy hydrin i chi ddilysu’r data a gofnodir ar bob tab yn ei dro wrth i chi gwblhau’r hawliad. Fel hyn, gallwch fynd i’r afael ag unrhyw gamgymeriadau wrth iddynt ddigwydd.


I’w gwneud hi’n haws eu defnyddio, mae’r rheoliadau dilysu i gyd wedi cael eu grwpio yn ôl nifer o setiau rheolau. Bydd rheolau sy’n ymwneud â data anghywir neu ddata a gofnodwyd yn cael eu dangos yn gyntaf, a bydd angen mynd i’r afael â’r rhain cyn y bydd unrhyw setiau eraill o reolau’n cael eu rhedeg.

Cofiwch y gallwch chi ddilysu’r data a gofnodwyd ar eich hawliad ar unrhyw adeg o’r broses Cyflwyno Hawliad trwy ddewis y botwm **‘Dilysu’** ar waelod unrhyw sgrîn hawlio. Bydd negeseuon dilysu’n ymddangos o dan bennawd y sgrîn hawlio *ac* ar y tab Methiannau Dilysu. Gallwch weld rhestr wirio gryno o’r ***holl*** negeseuon methiannau dilysu sy’n berthnasol i’ch hawliad trwy fynd i’r tab Methiannau Dilysu. Os ydych eisoes wedi dewis ‘**Dilysu’** sgrinau hawlio yn eu tro ar ôl rhoi data ar bob tab, mae’n bosibl y bydd y sgrîn Methiannau Dilysu eisoes yn dangos negeseuon methiannau dilysu pan fyddwch chi’n mynd iddo.

Mae’r negeseuon dilysu’n ymddangos ar y sgrîn hwn ar fformat rhestr wirio, a dangosir nhw yn nhrefn y sgrîn hawlio (‘Tudalen’) y maen nhw’n berthnasol iddi. Mae yna ddau fath o negeseuon/rheolau dilysu:

**Math 1**
Mae’r math cyntaf yn ymwneud â’r data sydd wedi cael ei gofnodi’n anghywir a rhaid ail-gofnodi neu gywiro hwn cyn y bydd yr hawliad yn ddilys:

Enghraifft 1 – Ni all yr incwm anghymwys hyd yn hyn fod yn fwy na’r cyfanswm a ragwelir



**Yn yr achos hwn, byddai rhaid addasu ffigwr yr incwm anghymwys a ragwelir er mwyn iddo fod yr un peth, neu'n uwch, na ffigwr yr incwm anghymwys hyd yn hyn.**

**Math 2**

Mae'r ail fath yn ymwneud â data sydd ar goll neu gymariaethau rhwng y data yn y proffil cyflawni a'r data a gyflwynwyd yn ystod yr hawliad diwethaf a dalwyd. Pan fydd y methiannau dilysu hyn yn digwydd, bydd angen i chi ddarparu esboniad ochr yn ochr â'r neges:

Enghraifft 1 Mae categori dangosydd yn uwch na'r goddefiant a gymeradwywyd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant | [Cost Fesul Uned] [Refeniw] Gwariant cymwys hyd yn hyn: torrwyd terfyn goddefiant - rhaid rhoi esboniad | Gwariant | Ie | Golygu |
| Incwm | Cyfanswm yr incwm cymwys hyd yn hyn: torrwyd terfyn goddefiant - rhaid rhoi esboniad | Incwm | Ie | Golygu |
| Incwm | [Gwirioneddol] [Preifat] [Refeniw] Incwm cymwys hyd yn hyn: torrwyd terfyn goddefiant - rhaid rhoi esboniad | Incwm | Ie | Golygu |
| Incwm | Ni all cyfanswm yr incwm anghymwys a ragwelir ar gyfer y prosiect fod yn llai na chyfanswm y costau anghymwys a ragwelir ar gyfer y prosiect - rhaid rhoi esboniad | Incwm | Ie | Golygu |
| Incwm | [Refeniw] Cyfanswm: incwm cymwys y prosiect: mae'r cyfanswm a ragwelir yn llai na'r cyfanswm a gymeradwywyd - rhaid rhoi esboniad. | Incwm | Ie | Golygu |
| Dangosydd | [3100] Cyflawniad hyd yn hyn - torrwyd terfyn goddefiant - rhaid rhoi esboniad | Dangosydd | Ie | Golygu |
| Dangosydd | [3103] Cyflawniad hyd yn hyn - torrwyd terfyn goddefiant - rhaid rhoi esboniad | Dangosydd | Ie | Golygu |
| Gwariant y Cyfnod Nesaf | [Gweinyddiaeth] [Refeniw] Gwariant cymwys: mae'r cyfnod nesaf o fewn neu'n torri terfyn goddefiant, ond mae tanwariant yn y cyfanswm hyd yn hyn - rhaid rhoi esboniad | Gwariant y Cyfnod Nesaf | Ie | Golygu |
| Gwariant y Cyfnod Nesaf | [Marchnata a hyrwyddo] [Refeniw] Gwariant cymwys: mae'r cyfnod nesaf o fewn neu'n torri terfyn goddefiant, ond mae tanwariant yn y cyfanswm hyd yn hyn - rhaid rhoi esboniad | Gwariant y Cyfnod Nesaf | Ie | Golygu |
| Gwariant y Cyfnod Nesaf | [Gwasanaeth Proffesiynol] [Refeniw] Gwariant cymwys: mae'r cyfnod nesaf o fewn neu'n torri terfyn goddefiant, ond mae tanwariant yn y cyfanswm hyd yn hyn - rhaid rhoi esboniad | Gwariant y Cyfnod Nesaf | Ie | Golygu |

Dilysu

Yn yr enghraifft uchod, mae'r data a gofnodwyd ar gyfer y Dangosydd wedi mynd yn groes i'r goddefiant a nodwyd.

I fynd i'r '**Dudalen'** y mae'r neges yn ymwneud â hi, dewiswch hyperddolen y '**Dudalen'** i'r chwith o'r neges. Bydd y sgrîn berthnasol yn cael ei harddangos.

## Manylion dangosyddion

| | |
|---|---|
| Rhif adnabod yr achos | Cyfnod Hawlio |
| Enw'r achos | Statws Hawliad |
| Enw'r Noddwr | Statws Dilysu Hawliad |
| Dilyswyd Ddiwethaf | Math o arian |

**[3100] Cyflawniad hyd yn hyn - torrwyd terfyn goddefiant - rhaid rhoi esboniad**

**[3103] Cyflawniad hyd yn hyn - torrwyd terfyn goddefiant - rhaid rhoi esboniad**

| Cod Dangosydd | Dangosydd | Math o Ddangosydd | Allwedd | Categori | Meini Prawf | Cyflawniad o'r Hawliad Diwethaf | Cyflawniad Cronnus Hyd yn Hyn | Targed y Proffil Cyflawni Hyd yn Hyn | Amrywiadau Hyd yn Hyn (%) | Cyflawniad Terfynol a Gymeradwywyd o'r Proffil Cyflawni | Cyflawniad Terfynol a Ragwelir | Cyfanswm yr Amrywiadau (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3100 | AP1.1 - Nifer y di-waith tymor byr heb sgiliau/sgiliau isel neu gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio | Allbwn | Nage | | | 0 | 35 | 500 | -93 | 3,500 | 3,500 | 0 |

Yn yr enghraifft a ddangosir, mae'r Cyflawniad Cronnus Hyd yn Hyn yn 0, a Tharged y Proffil Cyflawni Hyd yn Hyn yn 500. Dengys hyn 100% o amrywiant o'r Proffil Cyflawni cymeradwy.

I ddechrau, dylech wirio bod y swm wedi cael ei gofnodi'n gywir.
Os yw wedi ei gofnodi'n ***anghywir***, addaswch y ffigur trwy ddewis **'Golygu'** y sgrîn hwn ac yna ail-ddilyswch yr hawliad er mwyn diweddaru'r methiant dilysu.

Os yw'r ffigur wedi'i gofnodi'n ***gywir***, bydd angen i chi ddarparu eglurhad dros dorri'r goddefiad.


I wneud hyn, ewch yn ôl i'r sgrîn **'Methiannau Dilysu'** trwy ddewis y tab **'Methiannau Dilysu'**.

Bydd y sgrîn methiannau dilysu'n ymddangos, gan ddangos y negeseuon methiannau dilysu.

Bydd angen i chi ddarparu eglurhad ar gyfer pob methiant dilysu. I wneud hyn, dewiswch y botwm **'Golygu'** sydd ar ben draw ochr dde pob Neges.

Bydd blwch **'Sylwadau'r Cyflwynydd'** yn ymddangos ar gyfer y Neges, lle y bydd angen i chi roi eglurhad o'r methiant dilysu. Nodwch eich eglurhad yna dewiswch y botwm **'Diweddaru'**.

**DS: Gellir rhoi hyd at 500 nod yn y blwch sylwadau.**




Bydd y blwch sylwadau'n diflannu a bydd y golofn '**Esboniad wedi'i Roi'** yn newid o **'Naddo'** i **'Oes'**.

Dylech wedyn ddewis '**Dilysu'** yr hawliad.

Bydd y system yn perfformio set bellach o wiriadau dilysu lle gallai unrhyw ddata coll neu anghyflawn ac unrhyw negeseuon methiannau dilysu ychwanegol ymddangos, er enghraifft:

*'Angen Dyddiad Dechrau'r Gwariant Gwirioneddol ar yr Hawliad Cyntaf'*

Er mwyn cofnodi/cywiro'r wybodaeth hon, gallwch fynd i'r sgrîn hawlio berthnasol trwy ddewis hyperddolen y 'Dudalen' i'r chwith o'r Neges. Yn yr enghraifft hon, byddai angen i chi ddewis y ddolen 'Manylion Sylfaenol'. Bydd y sgrîn Manylion Sylfaenol yn ymddangos gan ddangos y

negeseuon methiannau dilysu. Bydd angen i chi wneud y diwygiadau angenrheidiol i’r sgrîn Manylion Sylfaenol ac **‘Arbed’** y newidiadau.

Bydd y neges gadarnhau’n ymddangos. Dylech ddewis ‘**Nôl’** wedi hyn, ac wedyn y tab ‘**Methiannau Dilysu’**.

Bydd y sgrîn Methiannau Dilysu’n ymddangos. Nodwch: Mae **‘Statws Dilysu’r Hawliad’** yn ***Annilys***.

Bydd angen i chi ddewis y botwm **‘Dilysu’.** Pan fydd y methiannau dilysu wedi’u cywiro bydd y neges yn diflannu, oni bai bod eglurhad wedi’i ddarparu. Bydd y system yn perfformio’r gwiriadau dilysu cefndirol ac yn adnabod bod y Methiannau Dilysu wedi’u datrys, a bydd **‘Statws Dilysu’r Hawliad**’ yn newid i ***‘Dilys’*** a bydd yr hawliad yn barod i’w gyflwyno i WEFO.

# 11. Crynodeb o Daliadau


## 11. Crynodeb o Daliadau

Pan fydd yr hawliad wedi'i ddilysu a Statws Dilysu'r Hawliad yn '**Ddilys'**, bydd y tab Crynodeb o Daliadau yn ymddangos gan ddangos eich hawl i Gymorth Ariannol.

Sgrin *ddarllen yn unig* yw'r Crynodeb o Daliadau a bydd rhan uchaf y sgrin hon yn dangos y **Gwerthoedd Cymeradwyo** (Cyfalaf a/neu Refeniw) canlynol ar gyfer y Gweithrediad:

- **Cyfradd Ymyrryd a Gymeradwywyd (%)**
- **Cyfanswm y Grant a Gymeradwywyd**
- **Grant a Gymeradwywyd y Cyfnod hwn**
- **Gwariant Cymwys a Gymeradwywyd**
- **Incwm Cymwys a Gymeradwywyd**

Prif ran y sgrin Crynodeb o Daliadau yw'r ***Crynodeb Cyfrifo***. Rhennir y wybodaeth a gyflwynir yn ôl gwerthoedd a *Gyflwynwyd* a gwerthoedd a *Broseswyd*. Cyfrifir y gwerthoedd a *Gyflwynwyd* gan ddefnyddio'r ffigurau a ddarparwyd ar yr hawliad a ffigurau'r hawliadau blaenorol. Ni fydd y gwerthoedd a *Broseswyd* yn cael eu dangos tan i'r hawliad gael ei gyflwyno i WEFO a'i awdurdodi ar gyfer ei Dalu. Caiff pob cyfrifiad ei rannu yn ôl cyfalaf a refeniw.



Crynodeb Tâl

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhif adnabod yr achos | | Cyfnod Hawlio | |
| Enw'r achos | | Statws Hawliad | |
| Enw'r Noddwr | | Statws Dilysu Hawliad | |
| Dilyswyd Ddiwethaf | | Math o arian | |

Gwerthoedd a Gymeradwywyd | Crynodeb Cyfrifo | Negeseuon

| Gwerthoedd a Gymeradwywyd | Cyflwynwyd | | | Proseswyd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfalaf | Refeniw | Cyfanswm | Cyfalaf | Refeniw | Cyfanswm |
| Cyfradd Ymyrryd a Gymeradwywyd (%) | | 74.999998 | 74.999998 | | | |
| Cyfanswm y Grant a Gymeradwywyd | | 7,256,159.00 | 7,256,159.00 | | | |
| Grant a Gymeradwywyd y Cyfnod Hwn | | 916,455.00 | 916,455.00 | | | |
| Gwariant Cymwys a Gymeradwywyd | | 9,674,879.00 | 9,674,879.00 | | | |
| Incwm Cymwys a Gymeradwywyd | | 2,418,720.00 | 2,418,720.00 | | | |

Rwy'n cadarnhau, hyd eithaf fy ngwybodaeth, bod holl fanylion y ffurflen hon yn gywir. Rwyf hefyd yn cadarnhau bod y gwariant sydd wedi'i ddatgan wedi cael ei wario ar weithgareddau cymwys mewn perthynas â'r prosiect. Yr wyf yn cadarnhau fy mod wedi cadw at y Telerau a'r Amodau ar gyfer Defnyddwyr ac at yr holl delerau, canllawiau a gofynion gan WEFO a allai fod yn gymwys i gynnwys y ffurflen hon neu i'r pynciau yr ymdrinnir â hwy ynddi. ☐

Cyflwynwch i WEFO

Mae'r *Crynodeb Cyfrifo'n* dangos y canlynol:

| | |
|---|---|
| **Gwariant Cymwys Cronnus Hyd yn Hyn** | wedi'i lenwi ymlaen llaw gan wybodaeth a ddarparwyd ar dudalen *Gwariant* y cais. |
| **Incwm Cymwys Cronnus Hyd yn Hyn** | wedi'i lenwi ymlaen llaw gan wybodaeth a ddarparwyd ar dudalen *Incwm* y cais. |
| **Hawl i Grant Hyd yn Hyn** | ▪ **Cyfradd:** wedi'i lenwi ymlaen llaw gyda'r *Gyfradd Ymyrryd Cymeradwy (%)* a bennwyd i'r *Gwariant Cymwys Cronnus Hyd yn Hyn*. |
| | ▪ **Angen:** wedi'i lenwi ymlaen llaw gyda'r gwahaniaeth rhwng y *Gwariant Cymwys Cronnus Hyd yn Hyn* a'r *Incwm Cymwys Cronnus Hyd yn Hyn*. |
| **Talwyd Hyd yn Hyn** | wedi'i lenwi ymlaen llaw gyda'r swm o Gymorth Ariannol a dalwyd eisoes o ganlyniad i hawliadau blaenorol (neu'n wag os nad oes unrhyw Gymorth Ariannol wedi'i dalu eto). |
| **Grant sy'n ddyledus – y Cyfnod Hawlio Hwn** | wedi'i lenwi ymlaen llawn gyda'r *Hawl i Grant Hyd yn Hyn* **minws** unrhyw Gymorth Ariannol a *Dalwyd Hyd yn Hyn*. |
| **Taliad Ymlaen Llaw – Cyfnod Hawlio Nesaf** | ▪ **Cyfradd:** wedi'i lenwi ymlaen llaw gyda'r *Gyfradd Ymyrryd Cymeradwy (%)* a bennwyd i *Wariant Cymwys y Cyfnod Nesaf* (wedi'i ddangos fel amherthnasol i Weithrediadau sy'n derbyn ôl-daliadau). |
| | ▪ **Angen:** wedi'i lenwi ymlaen llaw gyda'r gwahaniaeth rhwng *Gwariant Cymwys Cronnus y Cyfnod Nesaf* ac *Incwm Cymwys Cronnus y Cyfnod Nesaf* (wedi'i ddangos fel amherthnasol i Weithrediadau sy'n derbyn ôl-daliadau). |
| **Grant sy'n ddyledus – Gan gynnwys arian Ymlaen Llaw** | wedi'i lenwi ymlaen llawn gyda swm y Cymorth Ariannol / Grant sy'n ddyledus- *Y Cyfnod Hawlio Hwn a'r Taliad Ymlaen Llaw - Cyfnod Hawlio Nesaf*. |
| **Hawl i Grant ar ôl Cadw** | wedi'i lenwi ymlaen llaw gyda'r *Grant sy'n Ddyledus – Gan Gynnwys Taliad Ymlaen Llawn gydag unrhyw beth a gedwir* **wedi'i dynnu i ffwrdd.**. **Dyma swm y Cymorth Ariannol y byddwch chi'n cael ei dalu ar sail y gwerthoedd a gofnodwyd gennych ar gyfer yr hawliad hwn (yn unol ag unrhyw addasiadau gan WEFO).** |

**DS: Bydd WEFO yn cadw 10% o Gyfanswm y Grant Cymeradwy (oni nodir yn wahanol yn y Proffil Cyflawni) hyd nes y bydd y Gweithrediad wedi'i gwblhau a bod WEFO yn fodlon, hawliad terfynol boddhaol wedi'i ddarparu i WEFO a hyd nes y bydd pob gwiriad dilysu hawliad wedi cael ei gwblhau. Rhaid i'r ffurflen hawlio derfynol gael ei chyflwyno i WEFO o fewn 3 wythnos i'r Dyddiad Cau Ariannol.**

**Pan fydd Gweithrediad yn tanwario, bydd Cymorth Ariannol yn cael ei leihau yn unol â hynny a bydd 10% o'r grant dyledus a ail-gyfrifwyd yn cael ei gadw.**

| | |
|---|---|
| **Swm i'w Dalu wedi'i Addasu** | Bydd y rhes hon yn wag ar gyfer gwerthoedd *a Gyflwynwyd*. Pan fydd yr hawliad wedi'i brosesu, ac os bydd angen i Daliadau WEFO addasu'r taliad am ryw reswm, bydd y ffigur diwygiedig i'w weld yn y golofn *Proseswyd*. Byddwch chi'n cael eich hysbysu'n llawn o unrhyw addasiadau i'r taliadau y bydd WEFO'n ei wneud a'r rhesymau y tu ôl i'r addasiadau. |
| **Swm i'w Dalu** | Bydd y rhes hon yn wag ar gyfer gwerthoedd a *Gyflwynwyd*. Pan fydd yr hawliad wedi cael ei awdurdodi i'w dalu gan WEFO, bydd y gwerthoedd a *Broseswyd* yn cael eu llenwi gyda **naill ai'r** *Hawl i Grant ar ôl Cadw* **neu'r** *Swm i'w Dalu wedi'i Addasu* (lle y mae WEFO wedi addasu'r taliad). |


Y blwch **Negeseuon** yw rhan isaf y sgrin Crynodeb o Daliadau. Os yw'r Grant sy'n Ddyledus ar yr hawliad wedi'i gapio, bydd yr eglurhad dros hyn yn ymddangos yn y golofn *Cyflwynwyd*. Bydd y blwch Negeseuon hefyd yn eich rhybuddio os yw eich hawl i Gymorth Ariannol wedi cael ei gadw ar sail y wybodaeth a ddarparwyd yn yr hawliad.

# 12. Cyflwyno’r Ddogfen Hawlio


## 12. Cyflwyno'r Ddogfen Hawlio

Cyn dilysu'ch hawliad, rhaid i chi gyflwyno Adroddiad Cynnydd gyda phob ffurflen hawlio; heb hwn, bydd eich taliad yn cael ei gadw (gweler **Atodiad 1** a **2**).

Er mwyn cyflwyno dogfennau ychwanegol gyda'r ffurflen hawlio, dewiswch y tab '**Dogfennau'r Hawliad'**.




Dewiswch y botwm **'Lanlwytho'**. Bydd y sgrin **'Cyflwyno'r Ddogfen'** yn ymddangos. Defnyddiwch restr y gwymplen i ddewis y Math o Ddogfen rydych chi am ei gyflwyno.




Pan fyddwch wedi dewis y Math o Ddogfen, dewiswch **'Nesaf'.**

Byddwch chi’n cael eich annog i roi’r ‘**Math o Ddogfen’** (Gorfodol) a ‘**Teitl y Ddogfen’** (Gorfodol) ynghyd ag unrhyw ‘**Sylwadau’** rydych am eu hychwanegu (Opsiynol).




Wrth gofnodi Teitl y Ddogfen, rhaid i chi gydymffurfio â Phrotocol Enwi WEFO ar gyfer Dogfennau Electronig. Rhaid i ddogfennau gael eu henwi yn unol â’r egwyddor ganlynol:

**c(RhifAdnabodHawliad)(MathoDdogfen)(CyfnodHawlio)**

**e.e. c60695AdroddiadCynnyddEbr2015,**
**c60695TystiolaethyrHawliadEbr2015.**

Pan fyddwch wedi cofnodi’r Math o Ddogfen a Theitl y Ddogfen, dewiswch ‘**Pori**’ i ddewis y ddogfen rydych chi am ei chyflwyno.




Dewiswch y ffeil rydych chi am ei lanlwytho a dewiswch **‘Agor’.**

Bydd y ddogfen a ddewiswyd yn lanlwytho yn y maes ‘Pori’.

Nesaf, dewiswch i **‘Lanlwytho’** eich dogfen.

Bydd y neges lwyddiant yn cael ei harddangos, yn eich hysbysu **‘Mae’r ddogfen a gyflwynwyd gennych wedi cael ei derbyn.’**


Cyflwyno'r dogfen
Mae'r ddogfen a gyflwynwyd gennych wedi cael ei derbyn.
Document.rtf
Math o ddogfen: Adroddiad Cynnydd
Enw'r Ddogfen: Document.rtf
Dychwelyd i'r Rhestr Ddogfennau

# 13. Cyflwyno'r Hawliad i WEFO

## 13. Cyflwyno'r Hawliad i WEFO

Ar waelod y sgrin Crynodeb Tâl mae'r botwm 'Cyflwynwch i WEFO' sy'n eich galluogi i gyflwyno'ch ffurflen hawlio i WEFO.




Cyn dewis cyflwyno'ch hawliad, rhaid ticio '**blwch ticio**' yr ymwadiad er mwyn cadarnhau bod y manylion a ddarparwyd yn gywir a bod yr holl wariant a ddatganwyd wedi'i ddefnyddio i dalu am weithgareddau cymwys sy'n ymwneud â'r Gweithrediad.

**DS: Y 'Swyddog Cyflwyno Hawliadau' penodedig fydd yr unig un â'r gallu i gyflwyno'r hawliad. Bydd defnyddwyr nad ydynt wedi ymgymryd â'r rôl hon ac a fydd yn ceisio cyflwyno'r hawliad yn cael neges wall ac ni fydd yr hawliad yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus. Gweler Adran 3.1 am fwy o fanylion ar benodi Cysylltiadau Hawliadau.**

Pan fyddwch wedi cyflwyno'ch hawliad, bydd y system yn arddangos y sgrin Crynodeb Tâl. Ar y sgrin hon, byddwch yn gallu gweld bod statws yr hawliad sydd wedi'i gyflwyno'n dangos '**Ar Waith'**.

| | |
|---|---|
|  | Cyn cyflwyno'r hawliad, sicrhewch eich bod yn gyfarwydd â threfniadau hawlio WEFO, a Chanllawiau Cymhwysedd WEFO, oherwydd bydd y dogfennau hyn yn rhoi'r cymorth y bydd ei angen arnoch i sicrhau mai gwariant cymwys yn unig sydd wedi'i ddatgan. Os na fydd y Canllawiau Cymhwysedd yn cael eu deall yn ddigonol, gallai'r gwariant gael ei ddatgan yn anghymwys i gael ei gyd-ariannu. |

### 13.1 Adroddiad ar y Ffurflen Hawlio

Pan fydd eich hawliad wedi'i gyflwyno i WEFO, byddwch yn cael adroddiad hawlio sy'n cynnwys y wybodaeth rydych chi wedi'i chyflwyno. Bydd hwn ar ffurf dogfen PDF y byddwch chi'n gallu ei hargraffu neu ei storio'n electronig. Byddwch hefyd yn cael copi Excel o'r trafodiadau a gyflwynwyd o fewn yr hawliad hwn.

Bydd yr adroddiadau hyn ar gael ar-lein, gweler **adran 14** am fanylion pellach.

# 14. Gwirio Cynnydd Hawliad

## 14. Gwirio Cynnydd Hawliad

Pan fydd hawliad wedi'i gyflwyno, gall y Buddiolwr wirio ei gynnydd ar unrhyw adeg.

I wneud hyn, ewch i '**Dudalen Hafan'** WEFO Ar-lein a defnyddiwch y ddolen '**Crynodeb o'r Hawliad**' i ddewis yr achos (ar statws 'Gweithredol', h.y. Wedi ei Gymeradwyo) yr ydych am ofyn amdano.

### Crynodeb o'r hawliad

Talwyd hyd yn hyn(GBP) 0.00 Dyled a adenillwyd(GBP) 0.00 Cyfanswm net(GBP) 0.00

| Cyfnod | Rhif yr Hawliad | Math o Hawliad | Statws Hawliad | Dyddiad Dychwelyd Terfynol | Dychwelwyd yr Hawliad | Cyfanswm a Gofynnwyd | Cyfanswm a Dalwyd | Dyddiad Talu | Angen archwiliad | Dyddiad Dychwelyd Terfynol yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2015/02 | 1029107 | Ariannol | Canslwyd | 20/08/2015 | | | | | Ddim yn Ofynnol | |
| 2015/05 | 1029110 | Ariannol | Gwahoddwyd | 20/08/2015 | | | | | Ddim yn Ofynnol | |
| 2015/08 | 1029113 | Ariannol | Gwahoddwyd | 21/09/2015 | | | | | Ddim yn Ofynnol | |

Telerau ac Amodau Help a Chyfarwyddyd Cysylltu â Ni

Bydd y sgrin Crynodeb o'r Hawliad yn ymddangos gan ddangos manylion diwygiedig yr hawliad.



Yn dibynnu ar ba gam o'r broses hawlio y mae'r hawliad arni, bydd 'Statws yr Hawliad' yn dangos naill ai 'Gwahoddwyd', 'Ar waith', 'Aros Taliad', 'Talwyd' neu 'Wedi ei Ganslo' *(D.S. Er bod Taliadau WEFO'n cadw'r hawl i 'Ganslo' hawliad, byddai hyn ond yn digwydd mewn amgylchiadau eithriadol pe cyfyd yr angen)*.

Pan fydd yr hawliad wedi'i awdurdodi i gael ei dalu gan Daliadau WEFO (fel arfer o fewn 28 diwrnod o'i dderbyn), bydd '**Statws yr Hawliad'** yn newid i '**Aros Taliad'** a bydd y bylchau 'Swm **i'w Dalu'** a '**Dyddiad Talu'** wedi'u llenwi.

Pan fydd y taliad wedi'i wneud, bydd y statws yn newid i **'Talwyd'.**

# 15. Gweld Dogfennau Lefel Hawlio

## 15. Gweld Dogfennau Lefel Hawlio

Gallwch weld dogfennau sy’n ymwneud â’r hawliad ar-lein ar unrhyw adeg, Mae’r mathau o ddogfennau sydd ar gael ar-lein yn cynnwys:

- **Adroddiad Cynnydd** – cyflwynwyd gyda’r hawliad
- **Gwerthoedd a Gyflwynwyd yn Adroddiad yr Hawliad** – fersiwn pdf o’r ffurflen hawlio a gyflwynwyd
- **Adroddiad Trafodiadau a Gyflwynwyd** – Rhestr o’r trafodiadau a gyflwynwyd
- **Llythyr Taliad** – hysbysiad gan WEFO o daliad
- **Adroddiad ar Werthoedd yr Hawliad a Broseswyd** – fersiwn pdf o’r hawliad a broseswyd
- **Adroddiad Trafodiadau a Broseswyd** – Rhestr o’r trafodiadau a broseswyd

Gellir gweld y dogfennau sydd ar gael ar-lein yn y tab ‘**Dogfennau’r Hawliadau’** sydd ar gael ar bob hawliad ar-lein.

# 16. Cau'r Gweithrediad

## 16. Cau’r Gweithrediad

Rhaid Cau’r Gweithrediad mewn cydweithrediad â’ch Swyddog Datblygu Prosiect WEFO (SDP) a fydd yn eich cynghori ar ofynion cau eich Gweithrediad. Gellir cael cymorth hefyd gan Daliadau WEFO o ran trefniadau’r hawliad terfynol.

# Atodiadau

**Adroddiad Cynnydd**

**Rhaid darparu Adroddiad Cynnydd gyda phob ffurflen hawlio a gyflwynir. Os na fydd y wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno, bydd y Cymorth Ariannol yn cael ei gadw yn ôl..**

Gellir dod o hyd i dempled yr Adroddiad Cynnydd ar wefan WEFO a bydd angen cyflwyno hwn gyda'r hawliad trwy'r tab 'Cyflwyno Dogfen Hawlio' (gweler **adran 12** y canllaw hwn).

**Adran 1 – Gwybodaeth am gynnydd**
Defnyddiwch yr adran hon i adrodd ar hanes cynnydd a chyflawniadau yn ystod y cyfnod.

**Adran 2 – Amrywiadau i'r Proffil Cyflawni**
Defnyddiwch yr adran hon i ddarparu eglurhad ar unrhyw amrywiadau i'r proffil a gytunwyd ar gyfer gwariant, incwm a dangosyddion yn y cyfnod hwnnw.

**Adran 3 – Cynllun i'r Dyfodol**
Defnyddiwch yr adran hon i ddarparu manylion o'r gweithgarwch a gynllunnir ar gyfer y cyfnod nesaf.

**Adran 4 - Themâu Trawsbynciol**
Defnyddiwch yr adran hon i ddarparu manylion o'r cynnydd a wnaed yn erbyn Themâu Trawsbynciol, gan gynnwys gweithgarwch/dangosyddion.

**Adran 5 – Monitro a Gwerthuso**
Defnyddiwch yr adran hon i ddarparu manylion cynnydd ac unrhyw faterion sy'n ymwneud â chasglu data monitro a gweithgareddau gwerthuso arfaethedig (gan gynnwys caffael gwerthusiadau).

**Adran 6 - Cyhoeddusrwydd**
Defnyddiwch yr adran hon i ddarparu manylion ar sut mae'r Gweithrediad wedi cael ei hysbysebu (dylech gynnwys hyperddolenni i erthyglau/gwefannau hysbysebu lle bo'n briodol).

Mae canllawiau WEFO, Rheoliad 1303/2013 y CE a Chomisiwn Gweithredu Rheoliadau (UE) Rhif 821/2014 yn nodi'r rheolau sy'n ymwneud â'r mesurau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd y mae'n rhaid i Fuddiolwyr sy'n derbyn cymorth gan yr Arian Strwythurol eu gweithredu.

Amcanion y rheolau yw sicrhau bod digon o gyhoeddusrwydd yn cael ei roi i'r Gweithrediad, gyda'r nod o:

a. gwneud buddiolwyr a sefydliadau masnach posibl yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ganddynt; a
b. gwneud y cyhoedd yn ymwybodol o'r rôl sydd gan yr Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â'r Gweithrediad.

I gael mwy o wybodaeth, ewch i **adran 22** eich cytundeb ariannu.

**Adran 7 - Caffael**
Defnyddiwch yr adran hon i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch caffael a wnaed yn ystod y cyfnod (e.e. drafftio hysbysiadau tendro, gwahoddiadau i dendro, contractau a roddwyd, unrhyw oediadau, materion) gan ganolbwyntio ar gontractau dros £25 mil.

**Adran 8 – Cerrig Milltir / Amodau Arbennig**
Defnyddiwch yr adran hon i ddarparu manylion ar gynnydd a wneir yn erbyn unrhyw Gerrig Milltir agored neu Amodau Arbennig sy'n ymwneud â'r Gweithrediad hwn (gan gynnwys manylion unrhyw faterion sy'n effeithio ar gynnydd).

**Adran 9 – Cymorth Gwladwriaethol**
Defnyddiwch yr adran hon i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd / unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r Gweithrediad hwn.

**Adran 10 - Taliadau**
Defnyddiwch yr adran hon i ymateb i faterion a godwyd yn y llythyr taliad diweddaraf.

**Adran 11 – Is-adran Rheoli Rhaglenni**
Defnyddiwch yr adran hon i ymateb i faterion a godwyd yn ystod/ers y cyfarfod adolygu diwethaf (gan gynnwys materion sy'n ymwneud ag unrhyw faterion agored).

**Adran 12 – Rheoli a Dilysiadau**
Defnyddiwch yr adran hon i ymateb i faterion a godwyd yn y gwiriadau dilysu diweddaraf.

**Adran 13 – Cofrestr Risg**
Defnyddiwch yr adran hon i gadarnhau bod Cofrestr Risg ddiwygiedig wedi cael ei chyflwyno gyda'r Adroddiad Cynnydd.

## Atodiad 2
**Nodiadau Ychwanegol ar gyfer y Rhestr Trafodiadau**

- Dim ond rhestrau trafodiadau ***cyfnod*** a dderbynnir.

- Rhaid cofnodi'r arian cyfatebol gan **bob** Buddiolwr o fewn y rhestr drafodiadau.

- Lle y bydd gweithgareddau caffael wedi'u cwblhau er mwyn dod o hyd i bartneriaid cyflawni, yr unig anfonebau sydd angen i'r Prif Fuddiolwr eu cadw yw'r rhai hynny gan y darparwyr sy'n ymwneud â'r gwaith y maen nhw wedi'u gwneud, e.e. lle y bydd nwyddau/gwasanaethau wedi cael eu tendro a thaliadau wedi'u gwneud yn unol â'r goblygiadau cytundebol yn dilyn y caffael cyhoeddus gellir cyfyngu'r gwiriadau gwariant i'r anfoneb gan y cyflenwr a'r dystiolaeth gysylltiedig o gostau a rheoliadau i sicrhau bod y contract wedi cael ei gyflawni'n ddigonol cyn ei dalu.

- Ar gyfer pob gwariant sy'n cael ei hawlio (ac eithrio pan mae'r Math o Wariant = Costau Syml), rhaid i'r Rhestr Drafodiadau gynnwys dyddiad talu ar gyfer pob anfoneb/trafodiad (**h.y. y dyddiad y cliriwyd y swm yng nghyfrif banc y Prif Fuddiolwr neu'r Cyd-fuddiolwr**). Mewn **achosion eithriadol**, lle nad yw systemau ariannol y Prif Fuddiolwr yn adnabod dyddiadau talu'n syth, bydd WEFO'n derbyn:

  (i) Dyddiadau cysoni trafodiadau gyda datganiadau'r banc i gadarnhau'r taliad. **Ni dderbynnir dyddiadau awdurdodi'r anfonebau;** a

  (ii) Ar gyfer **trafodiadau siec yn unig**, y dyddiad y cofnodwyd y trafodiad yng nghyfriflyfrau'r Gweithrediad.

- Ar gyfer costau staff sy'n cael eu hawlio ar sail Cost fesul Uned (cyfradd yr awr), ni fydd angen dyddiad talu, ond bydd angen i chi ddarparu cyfnod yr hawliad (h.y. y mis) y mae'r gwariant yn ymwneud ag ef.

- Cyfrifoldeb y Prif Fuddiolwyr yw sicrhau bod pob gwariant wedi'i dalu ar adeg yr hawlio ac mae'r broses hawlio'n gofyn i'r Swyddog Cyflwyno Hawliadau wirio (ticio) datganiad hawliadau ar-lein WEFO i gadarnhau mai dyma'r achos. Lle defnyddir dyddiadau cysoni neu gyfriflyfrau, rhaid i Brif Fuddiolwyr sicrhau bod trywyddion archwilio llawn ar gael fel bod dyddiadau talu ar gael yn ddiweddarach i archwilwyr y CE ac WEFO ddilysu taliadau cyn cyflwyno'r hawliad. Dim ond gwariant sydd wedi'i dalu ar neu cyn dyddiad cau'r cyfnod y gellir ei gynnwys yn y rhestr drafodiadau a'r hawliad.

- Caniateir i'r Prif Fuddiolwr gynnwys gwariant cymwys Gweithrediad mewn hawliad WEFO sydd wedi'i dalu gan Gyd-fuddiolwyr cyn y byddant yn talu grant i'r trydydd partïon hyn. Fodd bynnag, rhaid i'r Prif Fuddiolwr gael prosesau ar waith i sicrhau fod ganddynt restrau trafodiadau a/neu hawliadau wedi'u harwyddo'n cadarnhau'r taliad. Wedi hyn, dylai'r rhestrau / hawliadau hyn gael eu gwirio gan y Prif Fuddiolwr er mwyn adnabod unrhyw eitemau gwariant anghymwys - os darganfyddir gwariant anghymwys, dylid ei dynnu allan o'r hawliad i WEFO. Byddai disgwyl bod y taliadau'n cael eu gwneud cyn gynted â phosibl ar ôl derbyn taliad Cymorth Ariannol gan WEFO a dylid darparu tystiolaeth o'r taliadau hyn rhwng y Prif Fuddiolwr a'r Cyd-fuddiolwr gyda rhestrau trafodiadau hawliadau dilynol.

- Rhaid i unrhyw addasiadau a wneir i'r trafodiadau a gyflwynir yn ystod y broses hawlio gael eu hadlewyrchu yn eich copi o'r rhestr drafodiadau sy'n gysylltiedig â'r cyfnod hawlio hwnnw. Rhaid i'r addasiad gael ei gofnodi fel gwerth negyddol / positif (yn dibynnu ar y

math o addasiad) ynghyd â disgrifiad o'r addasiad. Bydd yr addasiadau gofynnol yn cael eu nodi yn y llythyr talu hawliad a fydd ar gael ar WEFO ar-lein pan fydd yr hawliad wedi'i awdurdodi.

**<u>Gwerthoedd Negyddol mewn Rhestr Drafodiadau</u>**

- ***<u>Rhaid</u>*** i unrhyw werthoedd negyddol yn eich Rhestr Drafodiadau a gyflwynwyd gael eu cefnogi gan eglurhad yn y golofn 'Sylwadau'. Bydd hyn yn galluogi WEFO i bennu'r peth gorau i'w wneud ar gyfer yr addasiadau.

**<u>Eithriadau</u>**

- Bydd unrhyw werthoedd negyddol yng ngholofnau crynswth neu gymwys rhestr drafodiadau sy'n ymwneud â **throsglwyddiadau rhwng is-gategorïau** yn cael eu derbyn. Fodd bynnag, pan fydd nifer sylweddol o addasiadau/gwerthoedd negyddol yn bresennol, gallai hyn ddangos rheolaeth ariannol wael a gallai fod angen i WEFO archwilio i hyn ymhellach.

- Rhaid gallu adnabod **ad-daliadau** neu **nodiadau credyd** yn hawdd, gyda disgrifiadau digonol wedi'u darparu yng ngholofn 'Sylwadau Ariannol' y rhestrau trafodiadau, a lle bo'n bosibl, dylid darparu Rhif Adnabod y trafodiad cysylltiedig a fyddai wedi cael ei greu pan gyflwynwyd y trafodiad gwreiddiol. Pan na fydd modd adnabod y rhain yn hawdd, bydd Tîm Taliadau WEFO'n cysylltu â chi i ofyn am fwy o wybodaeth er mwyn sefydlu'r rhesymeg dros y gwerth minws.

**Amnewid**

Mae'r Rheolau a'r Amodau Cymhwysedd ar gyfer Rhaglenni 2014-20 (Adran 3 – Amnewid gwariant anghymwys) yn esbonio'r rheolau sy'n ymwneud ag amnewid gwariant anghymwys gan Fuddiolwyr (y rheol 'amnewid'):

**'Yn unol ag Erthygl 143 o Reoliad 1303/2013, os bydd gwariant a gaiff ei ddatgan gan Weithrediad yn cael ei ganfod i fod yn anghymwys wedi hyn, ac nad yw hyn yn cael ei ganfod tan i'r Buddiolwr dderbyn taliad o gymorth UE gan WEFO, ni all y Gweithrediad amnewid y gwariant anghymwys gyda gwariant cymwys ychwanegol. I egluro, bydd cyfanswm y gwariant cymwys a gymeradwyir gan WEFO ar gyfer y Gweithrediad yn cael ei leihau'n barhaol gan swm y gwariant afreolaidd.**

**Fodd bynnag, mewn achosion lle bydd y Buddiolwr yn hysbysu WEFO'n wirfoddol o wariant anghymwys posibl a ddatganwyd, a dalwyd ac a ddatganwyd i'r Comisiwn Ewropeaidd eisoes, mae'n bosibl y caiff y Gweithrediad ganiatâd i ddatgan gwariant amnewidiol fel na fydd cyfanswm gwariant cymwys y Gweithrediad yn cael ei effeithio. Bydd WEFO yn cynghori fesul achos'.**

Fe allai'r rheolau hyn effeithio ar y ffordd y bydd Buddiolwr am drin eitemau penodol o wariant. Mae'r nodyn hwn yn darparu gwybodaeth ychwanegol a fydd yn helpu'r Buddiolwr i ddeall sut y gallai'r newidiadau hyn effeithio ar Weithrediad, pam mae WEFO wedi gwneud penderfyniad penodol ar drin gwariant anghymwys a sut y dylid cyflwyno hyn mewn hawliad a rhestr drafodiadau.

**<u>Senario 1</u>**

Mae hawliad wedi'i gyflwyno i WEFO i'w ystyried ac mae'r **Buddiolwr yn hysbysu'r** Tîm Taliadau**'n ddiweddarach** ei fod wedi sylwi ar wallau yn y cyfnod hawlio hwnnw, a hoffai dynnu/ddiwygio'r trafodiadau cysylltiedig.

Lle nad yw'r hawliad wedi'i dalu, a lle nad yw WEFO wedi codi unrhyw fater gyda'r trafodiadau a effeithir, bydd angen i'r Buddiolwr gynghori Taliadau WEFO ar y trafodiadau a effeithiwyd. Bydd WEFO'n adolygu'r rhain wedi hyn ac yn penderfynu ar gamau gweithredu priodol.

I egluro, ni fydd gan y Prif Fuddiolwr yr hyblygrwydd i ddiwygio'r trafodiadau talu os yw wedi cael ei hysbysu fod WEFO angen gweld dogfennau cefnogol ar gyfer y trafodiadau penodol dan sylw.

Pan fydd hawliad wedi cael ei brosesu a'i dalu gan WEFO, rhaid i'r costau aros yn y colofnau crynswth, a rhaid i'r Buddiolwr gofnodi'r symiau o fewn colofnau anghymwys y ffurflen hawlio a'r rhestr drafodiadau nesaf a gyflwynir i WEFO yn y cyfnod hawlio dilynol.

Yn y senario hwn, mae'r Buddiolwr wedi rhoi gwybod am y gwall yn wirfoddol, felly gellir cynyddu'r gwariant crynswth a ragwelir ar gyfer yr is-gategori neu drafodiad/drafodiadau arbennig hwnnw. Bydd WEFO hefyd yn gallu cynyddu'r incwm cyfatebol yn unol â gwerth y gwariant anghymwys, h.y. swm y gwallau a nodwyd.

Gall y Gweithrediad ailddefnyddio'r gwariant a'r grant UE cyfatebol a effeithir ar gyfer gweithgarwch/gwariant cymwys.

**Senario 2**

Pan fydd WEFO, Tîm Archwilio'r Arian Ewropeaidd neu archwilwyr y CE yn sylwi ar wall, a allai gynnwys, er enghraifft:

- Defnyddio methodoleg dosrannu anghywir,
- Trawsddodi ffigurau,
- Cynnwys TAW adferadwy,
- Buddiolwr yn methu darparu trywydd archwilio digonol

Bydd Tîm Taliadau WEFO yn addasu'r trafodiad(au) a effeithir a'r **incwm ar gyfer yr ariannwr cyfatebol perthnasol.**

**Ni fydd** y golofn gwariant crynswth a ragwelir **yn cael ei gynyddu** i adlewyrchu'r swm anghymwys, ond **bydd** colofn yr incwm crynswth a ragwelir yn cynyddu **i dalu'r golled o grant yr UE ar y gwariant anghymwys**.

Bydd manylion yr addasiadau hyn yn cael eu cynnwys o fewn y Llythyr Taliad perthnasol a fydd yn cael ei ddarparu gyda'r hawliad a dalwyd.

Bydd y swm a nodir bob amser yn cael ei ystyried yn **anghymwys** i gael cymorth trwy'r arian strwythurol ac ni ellir ailddefnyddio'r symiau cysylltiedig gan y Gweithrediad.


Barnardo's